Roedd hefyd yn cydnabod mai un rhan yn unig o'r dirwedd arloesi yng Nghymru y gall Llywodraeth Cymru fod. Mae llawer o'r ysgogiadau sy'n ategu gweithgarwch arloesi o fewn cyrff cyhoeddus eraill, ein system addysg drydyddol, a sefydliadau sydd â chylch gwaith sy'n cynnwys y DU gyfan.

Felly, un o'r camau cyntaf oedd i Lywodraeth Cymru geisio cysylltiadau agosach â rhanddeiliaid arloesi allweddol, ac yn enwedig gydag Innovate UK, gyda'i hymrwymiad i ddatblygu sy'n seiliedig ar le a'r agenda Ffyniant Bro (gyda'i genhadaeth ddatganedig, sef cynyddu gwariant Ymchwil a Datblygu y tu allan i Dde-ddwyrain Lloegr).

Llofnododd Llywodraeth Cymru ac Innovate UK femorandwm cyd-ddealltwriaeth ym mis Ebrill. Roedd hyn yn arwydd o ymdrech gydfuddiannol i hyrwyddo a datblygu cynigion arloesi o ansawdd uchel ar draws amrediad o randdeiliaid, sectorau a rhanbarthau, gyda'r nod cyffredinol o gynyddu cyfran Cymru o gyllid y DU a ddyferni ar sail gystadleuol.

O ganlyniad, cyhoeddwyd Cynllun Arloesi Cydweithredol ar y cyd rhwng Innovate UK a Llywodraeth Cymru ym mis Hydref – y cyntaf o'i fath â llywodraeth ddatganoledig – wedi'i gynllunio i gyflawni'r nod cyffredinol hwn. Yn ogystal, cyhoeddwyd Cynllun Cyflawni Llywodraeth Cymru ym mis Hydref, sy'n amlinellu sut y bydd Llywodraeth Cymru yn gweithredu *Cymru'n Arloesi*, ac yn mesur y cynnydd.

Goblygiadau Ariannol: Dim. Mae'r gwaith hwn yn cael ei wneud gan ddefnyddio staff presennol.

Argymhelliad 14. Dylai Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ymrwymo i'r cyfarfod 6 ffordd gyda'r Prifysgolion, eu cyrff llywodraethu, UCU Cymru a CCAUC, i drafod cyllid pontio ar gyfer y gwyddonwyr a'r staff cysylltiedig a fydd yn colli eu swyddi eleni o ganlyniad i dynnu cronfeydd strwythurol yn ôl, fel y cynigiodd TUC Cymru ac UCU Cymru.

Ymateb: Mae'r argymhelliad hwn wedi'i anelu at Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru. Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn ei rhan yn yr argymhelliad.

Rydym yn deall bod yr amharu, yr anhyblygrwydd a'r ffaith nad oes cyllid llawn yn lle cyllid yr UE oherwydd dull Llywodraeth y DU o weithredu yn creu sefyllfa heriol iawn ar gyfer llawer o sefydliadau yng Nghymru, gan gynnwys prifysgolion, sydd wedi elwa ar gronfeydd yr UE o'r blaen. Mae llawer o sectorau yn economi Cymru bellach yn dweud bod staff yn cael eu diswyddo a bod rhaglenni hanfodol yn cau mewn meysydd fel ymchwil ac arloesi.

Ni all Llywodraeth Cymru lenwi bylchau ariannol sy'n deillio o golli mwy nag £1.1 biliwn o gyllid i ddisodli cronfeydd strwythurol yr UE a chyllid gwledig. Gan ei bod wedi cael ei hatal rhag cael mynediad at y Gronfa hon, mae Llywodraeth Cymru eisoes yn defnyddio arian o Gyllideb ddiwethaf Cymru i gefnogi cynlluniau i Gymru gyfan megis Prentisiaethau a Busnes Cymru sy'n hollbwysig ar gyfer cynhyrchiant a thwf.

Fodd bynnag, bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ystyried cynigion ar gyfer cyllid pontio fesul achos, yn enwedig pan fydd ei chyllid yn gallu gweithredu fel lluosydd, gan ysgogi buddsoddiadau ychwanegol gan y sector cyhoeddus neu'r sector preifat.

Goblygiadau Ariannol: Bydd angen ystyried unrhyw gynigion am gyllid pontio yn ofalus yng nghyd-destun y sefyllfa ariannol heriol bresennol ac yn unol â phrosesau polisi a chyllidebol. Byddai angen defnyddio cyllidebau presennol i dalu costau, a gall hyn arwain at golli cyfleoedd.

Argymhelliad 15. Dylai Llywodraeth y DU weithio ar y cyd â Llywodraeth Cymru i ddatblygu cynllun tymor hwy i ddiogelu ymchwil ac arloesi yn y sector Addysg Uwch yng Nghymru.

Ymateb: Er bod yr argymhelliad hwn ar gyfer Llywodraeth y DU, mae'n cyfeirio at Lywodraeth Cymru.

Mae diogelu ymchwil ac arloesi yn sector Addysg Uwch Cymru yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru, a byddem yn awyddus i weithio gyda Llywodraeth y DU i ddatblygu cynllun tymor hwy i ddiwallu anghenion y sector. Rydym yn parhau i gefnogi'r sector i gael mynediad at gyfleoedd ariannu cystadleuol drwy ffynonellau yn y DU, ac Ewrop fel Horizon Europe.

Goblygiadau ariannol: Amh

Argymhelliad 16. Dylai Llywodraeth y DU ystyried pryderon awdurdodau lleol yng Nghymru ynghylch rhai o'r gofynion ar gyfer cyllid Lluosi, a chymryd unrhyw gamau a fyddai'n sicrhau'r gwerth gorau am arian yr ymrwymwyd iddo gyda'r prosiect hwn. Gallai hyn gynnwys caniatáu amser ychwanegol i awdurdodau lleol wario eu dyraniad.

Ymateb: Ddim yn berthnasol i Lywodraeth Cymru

Goblygiadau ariannol: Amh

Argymhellion 17 ac 18:

- O ystyried bod y rhaglen Lluosi yn gweithredu mewn gofod datganoledig, dylai Llywodraeth y DU gynnwys Llywodraeth Cymru wrth ddatblygu unrhyw raglen olynol; ac
- O ystyried y pryderon a godwyd gan awdurdodau lleol, dylai Llywodraeth y DU ystyried a ddylai unrhyw gronfa olynol i Lluosi hefyd ganolbwyntio ar lythrennedd a sgiliau digidol er mwyn sicrhau'r effaith fwyaf posibl i'r rhai a fyddai'n elwa fwyaf o'r cynllun. Dylid ymgynghori â Llywodraeth Cymru fel rhan o'r ystyriaethau hyn.

Ymateb: Er bod yr argymhelliad hwn ar gyfer Llywodraeth y DU, mae'n cyfeirio at Lywodraeth Cymru.

Mae sgiliau a rhifedd oedolion yn faes datganoledig ac nid yw'r bobl yng Nghymru wedi rhoi mandad i bolisiâu Llywodraeth y DU mewn perthynas â'r mater hwn.

Er gwaethaf hyn, nid yw Llywodraeth Cymru wedi cael chwarae unrhyw ran yn Lluosi. Mae Lluosi yn gweithredu mewn cystadleuaeth uniongyrchol â darpariaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned, sydd eisoes ar gael yng Nghymru. Mae hefyd yn peri risg o ddyblygu gwaith ein rhaglen Sgiliau Hanfodol Cymru sydd wedi hen ennill ei phlwyf.

Mae hyn yn golygu bod dysgwyr yng Nghymru yn wynebu amrediad dryslyd a chymhleth o opsiynau, gydag awdurdodau lleol yn nodi anawsterau wrth wario eu dyraniadau oherwydd materion dylunio a chyflawni, gan gynnwys diffyg hyblygrwydd Lluosi i ddarparu sgiliau llythrennedd a digidol.

Dylid dychwelyd penderfyniadau ar faterion datganoledig, gan gynnwys rhifedd oedolion, i Lywodraeth Cymru i helpu i sicrhau eu bod yn cyd-fynd â pholisiâu datganoledig a helpu i leihau gwastraff, gwerth gwael am arian a chanlyniadau gwael i unigolion.

Goblygiadau ariannol: Amh

Argymhelliad 19. Dylai Llywodraeth y DU weithio gyda Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol a cholegau i nodi a mynd i'r afael ag unrhyw achosion o ddyblygu o ganlyniad i'r rhaglen Lluosi.

Ymateb: Er bod yr argymhelliad hwn ar gyfer Llywodraeth y DU, mae'n cyfeirio at Lywodraeth Cymru.

Mae Gweinidogion Cymru wedi codi pryderon ynghylch dylunio a darparu Lluosi ar ei ffurf bresennol gyda'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg.

Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi arian i'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol er mwyn ysgogi buddsoddi mewn sgiliau drwy ddatblygu ymatebion sy'n seiliedig ar anghenion lleol a rhanbarthol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol asesu'r trefniadau gweithredu ar gyfer y rhaglen Lluosi ym mhob un o'u hardaloedd rhanbarthol er mwyn helpu i osgoi dyblygu cynlluniau presennol.

Goblygiadau ariannol: Amh

Argymhelliad 20. Os bydd y Gronfa Ffyniant Bro yn parhau ar ôl 2025, ni ddylai gael ei darparu drwy geisiadau cystadleuol, a dylid dyrannu cyllid i'r ardaloedd hynny sydd â'r angen mwyaf.

Ymateb: Ddim yn berthnasol i Lywodraeth Cymru

Goblygiadau ariannol: Amh

Argymhelliad 21. Os bydd y Gronfa Ffyniant Bro yn parhau ar ôl mis Mawrth 2025, neu'n cael ei symleiddio'n gronfa ehangach, dylai fod gan Lywodraeth Cymru fwy o rôl yn ei datblygiad ac yn y broses o gytuno ar sut y caiff ei gweinyddu.

Ymateb: Er bod yr argymhelliad hwn ar gyfer Llywodraeth y DU, mae'n cyfeirio at Lywodraeth Cymru.

Mae'r Gronfa Ffyniant Bro yn faes arall lle mae Llywodraeth y DU yn defnyddio pwerau Deddf Marchnad Fewnol y DU i benderfynu ar wariant yn uniongyrchol mewn meysydd datganoledig, gan osgoi Llywodraeth Cymru a'r Senedd.

Mae'r Gronfa Ffyniant Bro yn disodli Cronfa Trefi Lloegr, y derbyniodd Llywodraeth Cymru swm canlyniadol ohoni drwy Barnett.

O dan y trefniadau presennol ar gyfer y Gronfa Ffyniant Bro, mae pob penderfyniad ynghylch cyllid ar gyfer prosiectau lleol yng Nghymru wedi cael ei wneud yn Whitehall.

Mae Llywodraeth Cymru wedi dadlau'n gryf y dylai cyllid i lefelu rhanbarthau ar draws y DU fod yn seiliedig ar angen, ac nid drwy broses gystadleuol.

Ar ben hynny, o dan ein setliad datganoli, dylid rhoi unrhyw Gronfa Ffyniant Bro ar ôl 2025 i Weinidogion Cymru er mwyn iddynt ei dyrannu yn unol â'i blaenoriaethau, ei chyfeiriad strategol a'i phrosesau cyllidebol, a dylai fod yn destun craffu gan y Senedd.

Goblygiadau ariannol: Amh

Argymhelliad 22. Dylai Llywodraeth y DU egluro pryd y bydd Cylch 3 o'r Gronfa Ffyniant Bro yn agor cyn gynted â phosibl.

Ymateb: Ddim yn berthnasol i Lywodraeth Cymru

Goblygiadau ariannol: Amh

Argymhelliad 23. Dylai Llywodraeth y DU barhau i weithredu Cronfa Ffyniant Gyffredin ar wahân, ond wedi'i diwygio, ar ôl i'r gronfa bresennol ddod i ben ym mis Mawrth 2025.

Ymateb: Ddim yn berthnasol i Lywodraeth Cymru

Goblygiadau ariannol: Amh

Argymhelliad 24. Dylai Llywodraeth y DU egluro beth yw ei bwriad o ran y Gronfa Ffyniant Bro a'r Gronfa Ffyniant Gyffredin ar ôl 2025 cyn gynted â phosibl.

Ymateb: Ddim yn berthnasol i Lywodraeth Cymru

Goblygiadau ariannol: Amh



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Paul Davies AS
Cadeirydd
Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

23 Tachwedd 2023

Annwyl Paul,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 26 Hydref.

Rwy'n ddiolchgar i'r Pwyllgor am ei waith ar adolygu effaith pwysau costau byw ar bobl ifanc a'u cyfleoedd addysg, cyflogaeth a hyfforddiant yn y dyfodol.

Yn wir, mae'r mater hwn hefyd wedi'i nodi yng ngwaith Sgwrs Genedalethol -Y Warant i Bobl Ifanc a thrwy sesiynau a gynhelir gyda ein Bwrdd Cynghori Pobl Ifanc. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i wneud popeth o fewn ei gallu i leihau ei heffaith ar bobl ifanc Cymru.

Rwy'n atodi yn Atodiad A ymatebion manwl i'r materion penodol y mae'r Pwyllgor wedi'u nodi.

Yn gywir,

Vaughan Gething AS
Gweinidog yr Economi

Copi i - Jeremy Miles AS, Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
Jayne Bryant AS, Cadeirydd, Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 44
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Atodiad A

Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig y Senedd: Pwysau costau byw a'r Warant i Bobl Ifanc

Mwy o gymorth ar gyfer costau ymlaen llaw

Argymhelliad 1: Argymhellodd Gyrfa Cymru fod angen gwneud mwy i fynd i'r afael â'r broblem lle mae costau ymlaen llaw yn rhwystro pobl ifanc rhag cael mynediad at gyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant. Byddai'r Pwyllgor yn croesawu ymateb Gweinidogol ynghylch y camau pellach y gall Llywodraeth Cymru eu cymryd i fynd i'r afael â'r broblem benodol hon o dalu costau ymlaen llaw.

Er gwaethaf y ffaith bod ein rhaglenni'n darparu pob math o gymorth ariannol i dalu am bethau fel costau teithio, bwyd a gofal, yn ogystal â chynyddu'r lwfans hyfforddi ar gyfer Twf Swyddi Cymru+ (TSC+Mwy) (hyd at £60 - pro rata os yw person ifanc yn mynychu am lai na 30 awr yr wythnos) a chynyddu'r Lwfans Cynhaliaeth Addysg, rydym yn ymwybodol bod argaeledd incwm gwario yn parhau i fod yn broblem. Yn wir, mae'r broblem hon hefyd wedi'i nodi yng ngwaith Sgwrs Genedlaethol y Warant i Bobl Ifanc a thrwy sesiynau a gynhelir gyda Bwrdd Cyngori Pobl Ifanc y Warant i Bobl Ifanc.

Byddwn yn parhau i archwilio'r holl ysgogiadau sydd ar gael i ni, gan gofio hefyd, fel y nodir yn [Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru](#), A4.7.4, 'Dylai taliadau a wneir ymlaen llaw fod yn rhai eithriadol, a dim ond os gellir rhoi dadl drostynt ar y sail eu bod yn cynnig gwerth da am arian y dylid eu hystyried (h.y. gellir dangos bod "angen")'.

Yn wir, gall Cymunedau am Waith a Mwy ddarparu cyllid i'r rhai sy'n cymryd rhan yn y rhaglen ar gyfer gwariant hanfodol megis costau teithio wrth fynychu hyfforddiant, profiad gwaith neu yn ystod wythnosau cyntaf cyflogaeth. Gall cyllid gael ei ddarparu hefyd ar gyfer gofal plant, dillad gwaith a chostau hanfodol eraill i gefnogi'r unigolyn i mewn i gyflogaeth neu hyfforddiant. Gall y cyllid hwn gael ei dalu ymlaen llaw ond bydd angen i unigolion ddarparu derbynebaw ar gyfer gwariant, neu bydd y cynllun yn ceisio cael ad-daliad.

O ran materion trafndiaeth ehangach, cynhaliodd Bwrdd Cyngori Pobl Ifanc y Warant i Bobl Ifanc sesiwn ar 1 Tachwedd a oedd yn cynnwys trafodaeth gyda chynrychiolydd o Trafnidiaeth Cymru. Un o'r materion a ddaeth i'r amlwg o'r drafodaeth oedd efallai na fydd pobl ifanc a'u gwarcheidwaid yn gwbl ymwybodol o'r ystod o opsiynau teithio rhatach sydd ar gael o dan Trafnidiaeth Cymru a National Rail - yn ogystal â'u sefydliadau addysg eu hunain. Mae Trafnidiaeth Cymru wedi cytuno i archwilio sut i gynyddu ymwybyddiaeth a bydd yn gweithio gyda phartneriaid, gan gynnwys tîm y Warant i Bobl Ifanc, i fynd i'r afael â hyn. Tynnodd y sesiwn sylw hefyd at bwysigrwydd hygyrchedd, diogelwch, argaeledd, amllder, capasiti a chymorth technoleg, ymysg pethau eraill. Bydd Trafnidiaeth Cymru yn parhau i ymgysylltu'n weithredol â phobl ifanc ar eu profiadau bywyd wrth i'r gwaith barhau ar dri phrosiect metro mawr a deddfwriaeth drwy'r Bil Gwasanaethau Bysiau.

Gwerthuso'r Warant i Bobl Ifanc – gwell data

Argymhelliad 2: Mae cydweithredu o ran rhannu data yn hanfodol o ran gwerthuso llwyddiant y Warant i Bobl Ifanc, a byddai'r Pwyllgor yn croesawu mwy o wybodaeth ynghylch sut mae Llywodraeth Cymru yn mynd i'r afael â hyn, ac yn sicrhau y caiff data eu rhannu'n effeithiol ar draws y partneriaid i lywio'r gwaith o gyflwyno'r Warant i Bobl Ifanc yn y dyfodol.

Ar hyn o bryd, mae'r Warant i Bobl Ifanc yn destun proses werthuso barhaus y disgwylir iddi gyflwyno adroddiad ffurfiol erbyn diwedd y flwyddyn nesaf. Mae'r gwerthusiad yn fwy cymhleth na'r rhan fwyaf o werthusiadau gan mai casgliad o raglenni yw'r Warant i Bobl Ifanc, ac mae llawer o'r rhaglenni hynny'n cael eu darparu gan bartneriaid o bob math o leoliadau gwahanol e.e. chweched dosbarth ysgolion, Colegau AB, Prifysgolion, Awdurdodau Lleol, Gyrfa Cymru a Cymru'n Gweithio a sefydliadau preifat, ymysg eraill.

Un o'r prif fesuriadau o gynnydd y Warant i Bobl Ifanc yw ffigurau'r Datganiad Ystadegol Cyntaf (SFR) blynyddol ar gyfer 'Pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yng Nghymru'. Mae gennym Ddangosydd Cenedlaethol bydd 'o leiaf 90% o bobl ifanc 16-24 oed mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant erbyn 2050'.

Mae'r [datganiad diweddaraf](#) o amcangyfrifon dros dro yn dangos bod 85.8% o bobl ifanc 16-24 oed mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant yn 2022, i fyny o 83.7% yn 2021.

Fel y nodwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor, mae amrywiaeth o gytundebau data ar waith rhwng Gyrfa Cymru ac ysgolion, colegau AB, ALLau a darparwyr hyfforddiant, gan arwain at adroddiadau lefel ranbarthol misol ar Fodel Pum Haen (haenau sy'n nodi statws addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant pobl ifanc 16-19 oed) y Fframwaith Ymgysylltiad a Chynnydd Ieuencid (YEPP).

Mae'r set ddata ar gyfer y rhai dros 18 oed a'r tu allan i'r lleoliadau hynny yn anoddach ei threfnu oherwydd yr ystod o gyrchfannau a lleoliadau sydd ar gael iddynt, gan gynnwys cymorth gan yr Adran Gwaith a Phensiynau y mae Gyrfa Cymru yn sefydlu cytundebau rhannu data gyda hi.

Nododd atodiad Adroddiad Blynyddol y Warant i Bobl Ifanc yr [Allbynnau ystadegol a'r setiau data sy'n berthnasol i'r Warant i Bobl Ifanc](#).

Mae Cynllun 2022 ar gyfer Cyflogadwyedd a Sgiliau yn cadarnhau ein bod yn archwilio cyflwyno model gweithredu unigol newydd a fydd yn cynnwys ReAct+, CfW+ a TSC+Mwy a'u helfennau casglu a rhannu data.

Partneriaeth rhwng Gyrfa Cymru a darparwyr hyfforddiant

Argymhelliad 3: Dywedodd Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru, o ran rhoi cyngor cywir a diduedd am yr ystod o gymorth a rhaglenni sydd ar gael o dan ymbarél y Warant i Bobl Ifanc, fod angen 'ail-gryfhau' y bartneriaeth rhwng Gyrfa Cymru a darparwyr hyfforddiant. Byddai'r Pwyllgor yn croesawu pe gallech amlinellu'r camau y byddwch yn eu cymryd i helpu i gyflawni hyn.

Mae Gyrfu Cymru a'n darparwyr hyfforddiant yn aelodau allweddol o'n prif fyrddau rhanddeiliaid - mae'r ddau yn aelodau o Grŵp Cyngori Rhanddeiliaid y Warrant i Bobl Ifanc a Bwrdd Gweithredol TSC+Mwy ac mae'r rhain yn darparu plattform i fyfyrion ar waith partneriaeth ac arferion gorau. Mae darparwyr hefyd yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd ar wahân gyda chydweithwyr yn Gyrfu Cymru i helpu i fynd i'r afael ag unrhyw faterion sy'n gallu codi rhwng cyfarfodydd y Bwrdd. Mae uwch-reolwr rhanbarthol enwebedig o Gyrfu Cymru yn gysylltiedig â phob un o'r Darparwyr Hyfforddiant ac maent yn cyfarfod bob mis o leiaf i drafod unrhyw faterion sydd wedi codi, ymgysylltiad, cyfathrebiadau ac ati. Gwahoddir darparwyr hyfforddiant hefyd i fynychu eu canolfannau gyrfaoedd lleol yn rheolaidd i gyfarfod â chwsmeriaid a rhannu gwybodaeth â staff gyrfaoedd ac i fynychu digwyddiadau a Ffeiriau Swyddi a drefnir gan dimau Cymru'n Gweithio.

Mae'r ddau hefyd yn aelodau o gyfarfodydd rhanbarthol YEPF/Gwasanaethau Ieuenctid.

Yn ogystal, mae Canfod Cymorth yn adnodd gwefan sydd ar gael ar wefan Gyrfu Cymru sy'n caniatáu i gwsmeriaid a phartneriaid chwilio am raglenni priodol ledled Cymru sy'n darparu cymorth cyflogadwyedd a sgiliau. Mae'n hygyrch o safle Cymru'n Gweithio (sydd ar wefan Gyrfu Cymru).

Mewn Colegau AB, mae Gyrfu Cymru yn bresennol mewn digwyddiadau Biwro Cyflogaeth a Menter ac, ym mis Gorffennaf, trefnodd tîm y Warrant i Bobl Ifanc ail Ddigwyddiad Rhannu Gwybodaeth rhwng staff y Biwro ledled Cymru ac arweinwyr Gyrfu Cymru, Ysbrydoli Rhagoriaeth Sgiliau a CfW+, TSC+Mwy a ReAct. Mae rhwydwaith bellach wedi'i sefydlu i barhau i rannu gwybodaeth yn ffurfiol ac yn anffurfiol.

Y targed Prentisiaethau a chyfraddau cadw a chwblhau

Argymhelliad 4: Byddai'r Pwyllgor yn croesawu rhagor o wybodaeth am ba asesiad sydd wedi'i wneud o gyflogwyr sydd wedi rhoi'r gorau i gynnig prentisiaethau, a'r rhesymau dros hynny, gan gynnwys y materion a godwyd gan Gyrfu Cymru ynghylch goruchwyliaeth a chynhyrchiant, a pha gamau sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r rhwystrau hynny i gyflogwyr.

Rydym yn datblygu dulliau ystadegol newydd i ychwanegu at ein dealltwriaeth o'r rhesymau wrth wraidd y chyfraddau llwyddiant galw heibio. Byddai'r dull hwn yn ein galluogi i ddadansoddi incwm prentisiaethau ac archwilio'n fwy uniongyrchol y cysylltiad rhwng incwm a chyfraddau llwyddiant prentisiaid. Mae'r dull yn arbrofol iawn ond, os bydd yn cynhyrchu canlyniadau yn y dyfodol agos, byddwn yn rhannu'r dystiolaeth gyda'r pwyllgor.

Yn ogystal â hyn, rydym wedi bod yn archwilio defnyddio hanes prentis o gymhwysra am brydau ysgol am ddim fel dangosydd o amddifadedd, a'r cysylltiad rhwng hyn a chyfraddau llwyddiant. Bydd y gwaith hwnnw'n cael ei gyhoeddi mewn erthygl y mis hwn (Tachwedd): Defnyddio hanes unigolion o ran prydau ysgol am ddim fel dangosydd amddifadedd mewn perthynas â deilliannau prentisiaethau a chyfleoedd dysgu oedolion.

Ategir y rhaglen brentisiaethau gan nifer o fentrau sy'n cefnogi ac yn annog manteisio ar brentisiaethau, er enghraifft, yn 2023-24 rydym wedi buddsoddi £1 miliwn mewn cymorth lechyd a Lles. Mae gwella lechyd a Lles staff a dysgwyr yn cefnogi darpariaeth o ansawdd a disgwylir iddo helpu i gynyddu cyfraddau cwblhau prentisiaethau. Mae'r cyllid hwn yn galluogi dysgwyr, staff a sefydliadau i gael gafael ar y cymorth sy'n ofynnol i gyflawni deilliannau llwyddiannus.

Rydym wedi ymrwmo i ddileu rhwystrau i gael prentisiaeth ac, er ein bod wedi gwneud cynnydd sylweddol i wella mynediad at brentisiaethau i ddysgwyr anabl, mae angen i ni wneud mwy. Yng Nghymru, mae gormod o gyflogwyr yn parhau i fod ag agweddau negyddol at gyflogi pobl anabl a gormod o adroddiadau am ddiffyg cymorth i gwmnïau sy'n ystyried cyflogi pobl ag anabledau. Ym mlwyddyn ariannol 2023/24, gwnaethom ddarparu £0.4 miliwn drwy'r Cynllun Cymhellion i Gyflogwyr i gymell cyflogwyr i gyflogi prentisiaid ag anabledau.

Mae tystiolaeth anecdotaidd bod y gofyniad i brentisiaid ennill Cymwysterau Sgiliau Hanfodol (ESQs) yn rhwystro cyflawniad; fel arfer, mae'n ofynnol i brentisiaid ennill sgiliau hanfodol mewn llythrennedd a rhifedd lle nad oes ganddynt gymwysterau amgen eisoes, megis cymwysterau TGAU. Felly, rydym wedi comisiynu Estyn i gynnal adolygiad thematig o ESQs a gynhaliwyd gan brentisiaid i ddeall, ymhlith agweddau eraill, fanteision ESQs a'u heffaith ar brentisiaid.

Weithiau, mae'r gyfradd isafswm cyflog genedlaethol i brentisiaid yn ddatgymhelliad. Mae gan Gyrfa Cymru enghreifftiau lle mae pobl yn rhoi'r gorau i brentisiaethau oherwydd y gallant gael swydd sy'n talu ddwywaith yr isafswm cyflog i brentisiaid. Mae prentis blwyddyn un neu'r rhai o dan 19 oed yn cael yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol i Brentisiaid o £5.28; gallant ennill dwbl hynny mewn swydd nad yw'n swydd brentisiaeth. Felly, gall prentisiaethau fod yn anodd i'w gwerthu a bod yn ddeniadol i rywun, oherwydd gall pobl yn aml ennill mwy mewn swydd ran-amser nag mewn swydd llawn amser.

Mae cyflogau isel yn effeithio ar gostau trafndiaeth; gwyddom fod swyddi sy'n cynnig cyflogau isel yn llai deniadol pan fydd cyfran sylweddol o'r gost yn cael ei hamsugno gan gostau teithio. Mae prentisiaid ar y gyfradd Isafswm Cyflog Cenedlaethol i Brentisiaid yn arbennig o agored i niwed.

Yn ddiweddar, gwnaethom ymateb i'r Comisiwn Cyflogau Isel ar ddyfodol Cyfradd Prentis yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol (NMW). Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y dylai'r Gyfradd Prentis gael ei chynyddu a'i halinio â chyfradd 2021-22 yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol er mwyn helpu i gymell pobl ifanc 16–19 oed i ddechrau prentisiaeth ac fel modd o ddylanwadu ar bobl ifanc wrth iddynt ddewis opsiynau addysg a chyflogaeth. Mae hyn yn arbennig o bwysig o ystyried y pwysau sy'n codi o'r argyfwng costau byw a phwysau chwyddiant.

Byddai cyfradd uwch i brentisiaid yn gwella proffil cyfleoedd hyfforddi 'ennill wrth ddysgu' ac yn helpu prentisiaid i dalu costau byw. Yn benodol, byddai cyfradd uwch yn sicrhau cydraddoldeb â dysgwyr ifanc mewn addysg llawn amser ac yn mynd i'r afael a gwahaniaethau mewn budd-dal plant, lle mae teuluoedd yn colli budd-dal plant ar gyfer plant sy'n ymgymryd â phrentisiaethau. Mae angen cydbwysu unrhyw

wahaniaethau canfyddedig mewn cynhyrchiant rhwng gweithwyr iau a hŷn yn erbyn gwerth tymor hwy y brentisiaeth i'r cyflogwr ac i'r prentis.

Ar ben hynny, rydym yn parhau i weithio gyda darparwyr i ddeall pa gymorth ychwanegol y gellir ei ddarparu i sicrhau bod pobl yn cwblhau eu hyfforddiant. Gall hyn gynnwys addasu mecanweithiau cyflawni fel bod pobl yn cyflawni'n gyflymach neu fod elfennau o'r rhaglen yn cael eu cyflwyno ymlaen llaw neu'n hwyrach i leihau'r pwysau ar unigolion.

O ran y sector gofal cymdeithasol, drwy undebau llafur y Fforwm Gwaith Teg Gofal Cymdeithasol, mae cyflogwyr a Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio mewn partneriaeth gymdeithasol ar ba gamau y gellir eu cymryd i wella telerau ac amodau i weithwyr gofal cymdeithasol, gyda gwell cyfleoedd i gamu ymlaen yn eu gyrfa. Mae hyn yn cynnwys datblygu Fframwaith Tâl a Dilyniant drafft ar gyfer y sector gofal cymdeithasol gyda'r nod o ddarparu cyfleoedd datblygu, cyflog a chynnydd mwy cyson drwy nodi bandiau eang o rolau ym maes gofal cymdeithasol, sy'n cyd-fynd â lefelau sgiliau, dysgu a chyflog. Rydym wedi dangos ein hymrwymiad i wella cyflogau drwy fuddsoddi £70 miliwn pellach y flwyddyn ariannol hon i sicrhau bod pob gweithiwr gofal cymdeithasol yn parhau i gael y Cyflog Byw Gwirioneddol o leiaf.

Byddwn yn parhau i godi ymwybyddiaeth o'r rhaglen drwy hyrwyddo'r manteision i gyflogwyr a dysgwyr drwy amrywiaeth o weithgareddau marchnata a chyfathrebu drwy gydol y flwyddyn. Mae Wythnos Prentisiaethau a Gwobrau Prentisiaethau Cymru yn cynnig cyfleoedd pellach i ni godi proffil y brentisiaeth a hyrwyddo'r manteision allweddol o ddod yn brentis (a recriwtio prentisiaid), gan ddangos cydraddoldeb o ran parch cydradd.

Newidiadau i fframweithiau a gofynion sgiliau hanfodol

Argymhelliad 5: Byddai'r Pwyllgor yn croesawu rhagor o wybodaeth am y camau sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r pryderon a amlygwyd ynghylch y broses o ddylunio a chymeradwyo fframweithiau prentisiaethau, ymatebolrwydd y broses a'r rhan sydd gan gyflogwyr i'w chwarae yn y broses honno.

Rhaid i bob prentis yng Nghymru ddilyn Fframwaith Prentisiaethau Cymru, sef fframwaith sy'n nodi rhaglen ddysgu, gan uno cymwysterau gwahanol mewn cynnig grŵp.

Mae cynnwys y fframwaith prentisiaethau yn cael ei lywio a'i fireinio gan gyflogwyr a rhanddeiliaid perthnasol eraill. Caiff fframweithiau prentisiaethau eu hadolygu'n gylchol i sicrhau bod y cynnwys yn parhau'n berthnasol i gyflogwyr, yn erbyn anghenion diwydiant sy'n newid yn aml. Mae hyn yn arbennig o wir am bynciau technegol megis digidol a pheirianneg lle mae safonau'r diwydiant yn esblygu'n gyson. Caiff adolygiadau fframwaith eu cwblhau gan arbenigwyr a grwpiau llywio ymgynghorol a gomisiynwyd; mae'r grwpiau hyn yn cynnwys cyrff diwydiant a/neu sector, Cymwysterau Cymru, darparwyr hyfforddiant a rhanddeiliaid perthnasol eraill. Mae'r grŵp llywio'n goruchwylio datblygiad y fframwaith prentisiaethau, gan gynnwys ymgynghoriad cyhoeddus gyda chyflogwyr i sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu

diwallu. Bydd y grŵp llywio hefyd yn ystyried yr angen am ofynion mynediad. Cyn cyhoeddi unrhyw fframweithiau newydd a diwygiedig, fe'u dilysir fel rhai sy'n cydymffurfio â rheoliadau statudol o dan y fanyleb Safonau Prentisiaethau yng Nghymru. Rydym yn gweithio gyda Cymwysterau Cymru a rhanddeiliaid eraill i fireinio'r broses i wneud y broses o ddatblygu a chymeradwyo prentisiaethau yn fwy effeithlon.

Mae'r holl gymwysterau mewn fframweithiau yn cael eu rheoleiddio gan Cymwysterau Cymru a Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru. Mae Cymwysterau Cymru hefyd yn cynnal adolygiadau sector sydd â'r nod o sicrhau bod cymwysterau'n parhau i ddiwallu anghenion y diwydiant. Mae'r gwaith o ddatblygu cymwysterau newydd yn cael ei arwain gan y diwydiant ac, yn achos yr adolygiad o'r sector Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig, cyfrannodd cynrychiolwyr y sector at ddatblygiad y cymwysterau newydd.

Mae CITB wedi mynd ati'n ddiweddar i arolygu cyflogwyr i adolygu effaith y trefniadau newydd hyn ar y sector. Bydd canlyniad yr arolwg hwn yn cael ei ddatblygu gan CITB gyda Cymwysterau Cymru a rhanddeiliaid eraill i sicrhau ein bod yn cynnal lefelau uchel o hyfforddiant ansawdd a chymhwysedd sydd o fudd i gyflogwyr adeiladu ledled Cymru.

Prentisiaethau ar gyfer gweithwyr peiriannau

Argymhelliad 6: Mae'r Pwyllgor wedi cael gwybod bod cwmni peirianeg sifil blaenllaw yng Nghymru yn ceisio ailbrisiad o'r Fframwaith Prentisiaethau Lefel 3 o ystyried yr heriau ymarferol y mae'n tynnu sylw atynt, ac am hyblygrwydd o ran bodloni'r rheol 51 y cant o oriau gwaith yng Nghymru. Byddai'r Pwyllgor yn croesawu ymateb gan y Gweinidog ar y pwyntiau penodol hyn.

Mae Llywodraeth Cymru yn ariannu fframweithiau prentisiaethau lefel 2 a lefel 3 mewn Gweithrediadau Peiriannau Peirianeg Sifil Adeiladu, sy'n cynnwys cymhwyster galwedigaethol cenedlaethol a thystysgrif dechnegol mewn Gweithrediadau Peiriannau ar lefel 2 a chymwysterau galwedigaethol newydd ar lefel 3. Yn dilyn adolygiad sector gan Cymwysterau Cymru o gymwysterau Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig, a oedd yn cynnwys ymgysylltiad ac ymgynghoriad eang â rhanddeiliaid a chyflogwyr, cyflwynwyd cymwysterau a model cyflawni newydd. O dan y model newydd hwn, dim ond o fewn y cymhwyster lefel 3 y mae sgiliau a chymwyseddau penodol ar gael, sef cloddwyr 180 a 360 gradd, trinwyr telesgopig neu ddympwyr tipio blaen. Rydym yn gweithio gyda rhanddeiliaid i ddod o hyd i ateb i'r mater a nodwyd gan Jones Bros sy'n diwallu anghenion y sector.

O ran cymhwystra ar gyfer prentisiaeth, mae'r amser a dreulir yn gweithio yng Nghymru neu Loegr yn pennu a ddilynir prentisiaeth Cymru neu Loegr. Os yw gweithiwr yn gweithio am fwy na 51% o'i brentisiaeth yng Nghymru, byddai angen i weithiwr ddilyn prentisiaeth Cymru, ac mae rheolau tebyg yn berthnasol yn Lloegr. Cyflwynwyd y rheolau ar gefn yr ardoll prentisiaethau, lle roedd system dalebau Llywodraeth y DU ar gyfer cael mynediad at ddarpariaeth prentisiaeth yn Lloegr yn

atal dysgwyr o Gymru (a'r Alban) rhag cael mynediad at ddarpariaeth yn Lloegr. Cyn y newid hwn, roedd trefniadau cilyddol yn bodoli gyda Llywodraeth y DU, gyda dysgwyr trawsffiniol yn cael eu hariannu gan y llywodraeth yn eu darparwr dysgu agosaf neu fwyaf priodol, gyda'r ddwy lywodraeth fel ei gilydd yn derbyn y gallai dysgwyr symud y naill ffordd neu'r llall dros y ffin. Nid yw swyddogion wedi gallu ailgyflwyno trefniadau tebyg ers hynny.

Parch cydradd ar gyfer cymwysterau galwedigaethol a llwybrau dilyniant

Argymhelliad 7: Mae Gyrfa Cymru yn derbyn bod angen gwneud mwy i ddangos, i rieni yn arbennig, ei bod yn bosibl symud ymlaen rhwng y lefelau prentisiaeth ar gyfer llwybr gyrfa llawn, gan gynnwys hyd at lefel gradd-brentisiaeth. Nid yw'r pryderon hyn yn rhai newydd, ond byddai barn y Gweinidog ynghylch sut i fynd i'r afael â'r rhwystr hwn yn rhagweithiol yn cael ei groesawu.

Rydym wedi ymrwymo i hyrwyddo parch cydradd rhwng llwybrau addysg galwedigaethol ac academaidd. Rydym yn croesawu'r adroddiad gan yr Adolygiad o Gymwysterau Galwedigaethol a gyflwynodd 33 o argymhellion yn ymwneud â dyfodol cymwysterau galwedigaethol. Mae'r argymhellion hyn yn ymdrin â materion megis egwyddorion a diben cymwysterau galwedigaethol ac ystod ac argaeledd cymwysterau o'r fath drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn ddwyieithog.

Rydym yn cydnabod bod angen edrych ar sut rydym yn synergeiddio addysg, sgiliau a pholisïau a strategaethau economaidd ar draws Llywodraeth Cymru.

Rydym o blaid dull pragmatig o ymdrin â chymwysterau galwedigaethol sy'n diwallu anghenion Cymru, yn parchu dewis dysgwyr ac yn sicrhau'r cludadwyedd a'r gydnabyddiaeth y tu allan i Gymru. Byddai dechrau o'r dechrau neu ail-ddylunio'r holl gymwysterau presennol yn broses hir a drud iawn. Fodd bynnag, mae gwerth ychwanegol i fabwysiadu dull gweithredu a wnaed i Gymru, megis ar gyfer cymwysterau newydd neu pan adolygir cymwysterau i sicrhau eu bod yn parhau'n berthnasol.

Rydym yn gweithio'n agos gyda Cymwysterau Cymru i ddeall goblygiadau diwygio cymwysterau a'u heffaith ar y farchnad yng Nghymru.

Mae yna lwybrau cryf yn bodoli eisoes rhwng llawer o lefelau prentisiaeth. Yn dilyn cam peilot gweithredu'r rhaglen radd-brentisiaeth, canfuwyd bod un o bob tri phrentis gradd wedi dweud ei fod wedi ymgymryd â phrentisiaeth o'r blaen. Roedd y nifer hwn yn codi i 55 y cant wrth werthuso'r fframwaith peirianeg ac uwch-weithgynhyrchu. Cyflawnodd hanner y myfyrwyr hyn eu dysgu gyda'r un cyflogwr. Mae hyn yn awgrymu bod cynnydd drwy'r lefelau yn cael ei sefydlu o fewn y fframwaith hwn yn benodol.

Er gwaethaf hyn, cydnabyddir bod angen gwneud mwy. Gyda hyn mewn golwg, mae swyddogion yn ceisio creu llwybrau addysg a gyrfa mwy clir i brentisiaethau uwch / gradd-brentisiaethau. Gan weithio gyda diwydiant a rhanddeiliaid, mae nifer o heriau wedi'u nodi ar gyfer y myfyrwyr hynny sy'n ystyried mynd i mewn i sectorau

blaenoriaeth allweddol, megis adeiladu a sgiliau datblygol newydd yn y sectorau peirianeg uwch a digidol. Drwy weithio mewn partneriaeth â diwydiannau'r dyfodol, y nod yw creu llwybrau clir a fydd yn caniatáu i brentisiaid symud ymlaen o lefel 2 i lefel 6.

Ym mis Hydref 2023, comisiynwyd Diwydiant Cymru i greu llwybr prentisiaeth ar gyfer disgyblion Blwyddyn 13 / y rhai sy'n gadael AB sy'n arwain at Brentisiaeth Technolegau Cymhwysol Lefel 4 sydd wedi'i hanelu at anghenion y sector Peirianeg a Gweithgynhyrchu. Bydd y llwybr hwn yn galluogi myfyrwyr, sydd â chymwysterau Safon Uwch STEM neu BTEC da, i gamu ymlaen yn uniongyrchol i Brentisiaeth Uwch lefel 4. Bydd y llwybr hwn hefyd yn cynnwys Cyflawni Gweithrediadau Peirianeg lefel 2, sy'n rhagofyniad i fyfyrwyr weithio mewn Diwydiant. Unwaith y bydd lefel 4 wedi'i chyflawni, bydd gan fyfyrwyr y dewis i barhau mewn cyflogaeth neu i gamu ymlaen yn ddi-dor i radd-brentisiaeth heb orfod dyblygu meysydd dysgu.

Bydd y model hwn yn cael ei ailadrodd ar gyfer sectorau twf allweddol eraill drwy ymgysylltu'n agos ac yn rheolaidd â chyflogwyr i asesu pa lefelau o fewn fframweithiau penodol a fydd yn ffafriol i gynnydd ystyrion i unigolion, busnesau a sefydliadau'r sector cyhoeddus. Bydd y llwybrau hyn yn cael eu hyrwyddo ar y cyd â Gyrfa Cymru, y Consortia Rhanbarthol a rhaglenni cyfoethogi STEM Llywodraeth Cymru megis Cynllun Addysg Beirianeg Cymru a Technocamps i sicrhau bod myfyrwyr a'u rhieni a'u gofalwyr yn deall y bydd y cymwysterau hyn yn arwain at swyddi hynod fedrus sy'n talu'n dda ac sy'n diwallu anghenion Diwydiant 4.0.

Mynd i'r afael â rhwystrau sy'n ymwneud â thaliadau budd-dal

Argymhelliad 8: Byddai'r Pwyllgor yn croesawu ymateb gan y Gweinidog ynghylch beth arall y gall Llywodraeth Cymru a'r Adran Gwaith a Phensiynau fel ei gilydd ei wneud i fynd i'r afael â'r rhwystrau sy'n atal pobl rhag manteisio ar raglenni a gynigir o dan y Warrant i Bobl Ifanc oherwydd pryderon ynghylch yr effaith ar daliadau budd-dal aelwydydd.

Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi gweithio'n agos gyda chydweithwyr yn yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) yn ystod datblygiad y rhaglen TSC+Mwy ac yn parhau i wneud hynny i sicrhau bod pobl ifanc sy'n derbyn budd-daliadau yn dal i allu manteisio ar y rhaglen. Mae swyddogion wedi gweithio gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau i ddatblygu systemau er mwyn rhannu gwybodaeth gywir am faint o oriau mae pobl ifanc yn eu treulio ar y rhaglen a'u lwfans hyfforddiant cysylltiedig. Yna, caiff hyn ei ddefnyddio gan yr Adran Gwaith a Phensiynau i gyfrifo faint o fudd-daliadau (os o gwbl) y bydd gan y person ifanc yr hawl i'w cael.

Rydym yn cynnal cysylltiadau gwaith agos â swyddogion yr Adran Gwaith a Phensiynau. Maent yn mynychu cyfarfodydd chwarterol Bwrdd Gweithredol TSC+Mwy. Mae swyddogion hefyd yn cael cyfarfodydd rheolaidd gyda'u cymheiriaid yn yr Adran Gwaith a Phensiynau y tu allan i'r cyfarfodydd hyn i rannu gwybodaeth a mynd i'r afael ag unrhyw faterion wrth iddynt godi.

Yn ogystal â gweithio gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau, mae swyddogion wedi gweithio gyda CThEF i sicrhau bod TSC+Mwy ar y rhestr o gyrsiau cydnabyddedig y

gall pobl ifanc eu cyrchu heb iddynt effeithio ar allu'r teulu i hawlio Budd-dal Plant lle bo hynny'n berthnasol. Mae swyddogion hefyd wedi gweithio gyda CThEF i sicrhau nad yw pobl ifanc yn talu treth ar y lwfans hyfforddi y derbyniant o dan y rhaglen.

Gwahaniaethau rhwng rhanbarthau a rhwng ardaloedd gwledig a threfol

Argymhelliad 9: Byddai'r Pwyllgor yn croesawu ymateb Gweinidogol ar y gwaith sy'n cael ei wneud i hybu mwy o ymwybyddiaeth o'r cyfleoedd i barhau i ddysgu yn Gymraeg a'r galw mawr gan gyflogwyr am weithwyr dwyieithog.

Mae'r rhaglen Twf Swyddi Cymru+ yn cydnabod pwysigrwydd y Gymraeg a phwysleisiodd manyleb y rhaglen i gontractwyr bwysigrwydd cydraddoldeb rhwng darpariaeth Cymru a Lloegr.

Yn ystod misoedd cyntaf gweithredu'r rhaglen, daeth yn amlwg bod angen cyllid ychwanegol ar gontractwyr i gefnogi darpariaeth Gymraeg, felly diwygiwyd y rhaglen i gefnogi hyn. Mae Atodiad 8 o fanyleb ein rhaglen yn cynnwys yr wybodaeth lawn am hyn: [jobs-growth-wales-plus-programme-specification-version-1-3.pdf \(gov.wales\)](https://gov.wales/sites/default/files/2024-03/jobs-growth-wales-plus-programme-specification-version-1-3.pdf) (Saesneg yn unig)

Mae nifer y swyddi sy'n gofyn am sgiliau Cymraeg yn cynyddu, yn enwedig yn y sector cyhoeddus ac yn y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol. Mae llwyddiant ein [strategaeth Cymraeg 2050](#) hefyd yn ddibynnol ar nifer cynyddol o ymarferwyr Cymraeg i gefnogi'r blynyddoedd cynnar a'r cyfnod addysg statudol.

Mae rôl y Coleg Cymraeg Cenedlaethol wedi cael ei ehangu i ddarparu cymorth wedi'i dargedu ar gyfer y sectorau addysg bellach a phrentisiaethau. Mae [Cynllun Gweithredu](#) cyfrwng Cymraeg Addysg Bellach a Phrentisiaethau uchelgeisiol y Coleg yn nodi'r camau sydd eu hangen i gynyddu capasiti yn y sectorau hyn ac rydym yn buddsoddi cyllid ychwanegol i gefnogi'r ddarpariaeth mewn meysydd blaenoriaeth. Mae gwaith gyda'r Coleg yn parhau i nodi sectorau lle dylid datblygu fframweithiau newydd neu gapasiti ychwanegol ar gyfer prentisiaethau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. Yn ogystal, er mwyn annog pobl i fanteisio ar brentisiaethau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog, rydym wedi cyflwyno model ariannu arloesol yn ddiweddar sy'n cymhwyso ymgodiad ar gyfer darpariaeth a ddarperir yn ddwyieithog.

Rydym yn buddsoddi cyllid ychwanegol i gefnogi'r ddarpariaeth Gymraeg yn y sector prentisiaethau. Mae darparwyr prentisiaethau a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn cydweithio i gynyddu capasiti yn y sector a bydd angen i'r gwaith hwn barhau os ydym am greu mwy o gyfleoedd i bobl ifanc ddysgu a hyfforddi drwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd gan y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (CTER) ddyletswyddau penodol hefyd mewn perthynas â'r Gymraeg a bydd angen iddo weithio'n effeithiol gyda darparwyr a'r Coleg fel y gall mwy o bobl ifanc ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg a datblygu eu sgiliau Cymraeg.

At hynny, mae Gyrfa Cymru yn hwyluso ffair yrfaoedd ddigidol, genedlaethol 'Cymraeg yn y Gweithle' ar gyfer ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg sy'n cynnwys cyflogwyr sy'n chwilio am weithwyr dwyieithog yn flynyddol. Yn 2024, mae'n bwriadu sicrhau bod y cynnwys digidol o'r digwyddiad ar gael fel adnodd digidol i ysgolion.

Mae'n cefnogi gweithgareddau addysg pwrpasol mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg i gefnogi diwrnodau ymgysylltu â chyflogwyr i hyrwyddo gwerth Cymraeg yn y gweithle. Aeth hefyd ati yn ddiweddar i gynnal ymgyrch ar y cyfryngau cymdeithasol i recriwtio cyflogwyr sy'n siarad Cymraeg.

Mae pob ysgol yng Nghymru yn cael cynnig sesiwn grŵp 'Sgiliau dwyieithog yn y gweithle' ar gyfer pob dysgwr CA3 i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a'r gofynion o fewn y gweithlu.

Mae yna hefyd adran 'Dysgu Cymraeg' ar wefan Gyrfa Cymru sy'n ymdrin â chyrsgiau, manteision dysgu'r iaith, Cymraeg yn y gweithle a chymorth sydd ar gael i gyflogwyr.

Argymhelliad 10: Byddai'r Pwyllgor yn croesawu ymateb y Gweinidog ar flaenoriaethu cynnydd mewn cyllid i fynd i'r afael â'r gwahaniaethau penodol rhwng rhanbarthau a rhwng ardaloedd gwledig a threfol y mae wedi'u hamlygu o ran mynediad at gyfleoedd am addysg, hyfforddiant a chyflogaeth ledled Cymru.

O'r cychwyn cyntaf, rhan o resymeg Twf Swyddi Cymru+ oedd y dylai'r rhaglen fod yn hygyrch i bob person ifanc cymwys, beth bynnag fo'i amgylchiadau, gan gynnwys pa mor wledig yw'r ardal y mae'n byw ynddi. Aethom ati'n fwriadol i wneud y broses yn anghystadluel fel na fyddai contractwyr yn gallu dewis yr ardaloedd mwyaf/mwyaf proffidiol, gan adael rhai ardaloedd heb ddarpariaeth. Dyrennir cyllid ar sail 'lot' rhanbarthol, yn dibynnu ar faint y boblogaeth.

Hefyd, ar ddechrau'r rhaglen, aeth y swyddogion ati i sicrhau, lle roedd mwy nag un darparwr yn cwmpasu 'lot' rhanbarthol, eu bod yn gweithio gyda'i gilydd i greu cytundebau cydweithio er mwyn sicrhau bod pob ardal yn derbyn darpariaeth gyfartal.

Mae gennym weithdrefnau rheoli contract cadarn ar waith i sicrhau y gallwn nodi materion yn gynnar a chymryd camau i sicrhau eu bod yn cael sylw.

At hynny, mae Cymunedau am Waith a Mwy yn cael ei ddarparu ar draws pob un o'r 22 ardal awdurdod lleol, gan gwmpasu cymunedau trefol a gwledig. Mae'n darparu hyfforddiant a chymorth cyflogaeth dwys i'r bobl hynny sydd fwyaf difreintiedig yn y farchnad lafur. Mae dyraniadau cyllid yn cael eu pennu gan ddefnyddio data cyflogaeth ac amddifadedd ehangach, gan gynnwys mynediad at wasanaethau, iechyd ac addysg, a gymerwyd o Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru.

Cyngor cyson ynghylch gyrfaoedd o lefel ysgol gynradd

Argymhelliad 11: Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn darparu cyfarwyddyd clir i sicrhau bod colegau ac ysgolion yn cydweithio i helpu dysgwyr i symud ymlaen i gyflogaeth, gan gynnwys drwy gytundeb lefel gwasanaeth ynghylch rhannu a chyfnewid gwybodaeth rhwng addysg bellach ac ysgolion, gyda Gyrfa Cymru yn gweithredu fel 'brocer gonest' yn hyn o beth. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y gofyniad hwn am gytundeb lefel gwasanaeth ynghylch rhannu a chyfnewid gwybodaeth yn cael ei gynnwys yn

Ilythyrau cylch gwaith Llywodraeth Cymru ar gyfer Gyrfa Cymru a'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil.

Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid, gan gynnwys Gyrfa Cymru, Colegau Cymru a'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil newydd i archwilio sut y gellir prif ffrydio rhywfaint o'r arfer da (fel y nodir yng nghyfarfod y Pwyllgor).

Bydd hyn yn cael ei lywio hefyd gan gynlluniau peilot mae Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru yn eu goruchwyllo. Ffurfiwyd Cynllun Peilot Llwybrau Gyrfa Ynys Môn ym mis Mai 2023 ac mae'n gydweithrediad rhwng Ysgolion Uwchradd Ynys Môn, adran Addysg yr awdurdod lleol, Gyrfa Cymru, Grŵp Llandrillo Menai a Phartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru. Prif nod y cynllun peilot yw sicrhau bod pobl ifanc Ynys Môn yn ymwybodol o'r gwahanol lwybrau gyrfa sydd ar gael yn y rhanbarth a sicrhau bod pob sefydliad yn gweithio mewn ffordd fwy cydgysylltiedig a chlyfar i sicrhau bod dysgwyr yn gallu camu ymlaen i hyfforddiant neu gyflogaeth. Mae'r gweithgareddau'n cynnwys sesiynau gwybodaeth am y farchnad lafur (LMI) ar gyfer athrawon ar lwybrau gyrfa; sicrhau bod y coleg a'r ysgolion yn cydweithio ar gyflwyno gwybodaeth, cyngor ac arweiniad i bobl ifanc ar bob llwybr sydd ar gael iddynt, gan gynnwys prentisiaethau.

Mae Grŵp Codi Dyheadau Wrecsam wedi sicrhau Cytundeb Lefel Gwasanaeth rhwng ysgolion, Coleg Cambria a Gyrfa Cymru i rannu data ar ddysgwyr i sicrhau eu cynnydd ar eu llwybr o'r ysgol ac i addysg bellach. Nod y grŵp hwn yw cynyddu cyfranogiad mewn addysg, hyfforddiant a chyflogaeth a chodi canfyddiadau, dyheadau a hyder yn y cyfleoedd sydd ar gael yn Wrecsam a thu hwnt.

Byddwn hefyd yn archwilio sut y gallai Biwroau Cyflogaeth a Menter ehangu eu cydweithrediad ag ysgolion sydd hyd yma wedi cynnwys: cyfranogiad disgyblion ysgol mewn diwrnodau/Ffeiriau Gyrfaoedd/Swyddi; cynadleddau sector; prosiectau dysgu/cwricwlwm ar y cyd; gweithdai CV; sesiynau cyfweld ffug a sesiynau ymwybyddiaeth entrepreneuriaeth.

Mewn un coleg, mae gan bob ardal cwricwlwm ei grŵp llywio cyflogadwyedd ac entrepreneuriaeth ei hun. Mae'r grŵp llywio hwn yn cynnwys ysgolion, arbenigwyr y diwydiant ac mae'n pontio addysg i fyd gwaith, gan alluogi staff i greu cyfleoedd partneriaeth cydweithredol i ddysgwyr.

Mewn ysgolion, mae Gyrfaoedd a Phrofiadau sy'n Gysylltiedig â Gwaith yn rhan o'r cwricwlwm 3-16 ac mae Gyrfa Cymru yn helpu ysgolion i sicrhau bod dysgwyr cynradd ac uwchradd yn derbyn gwybodaeth a chymorth priodol. Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru'n datblygu canllawiau ar ddysgu 14-16 mewn ysgolion uwchradd sy'n cynnwys ffocws ar sut y gall pobl ifanc ddatblygu ymdeimlad o'u dyheadau cyflogaeth, addysg neu hyfforddiant eu hunain drwy fyfyrddod personol a chymorth gyrfaoedd a pharatoi'n hyderus i symud i'w camau nesaf. Mae rhai enghreifftiau cryf o arfer da ledled Cymru o gysylltiadau cyflogwyr, colegau ac ysgolion ac, yn unol ag adolygiad Hefin David AS ac argymhellion adolygiad Cymwysterau Galwedigaethol, byddwn yn ceisio rhannu'r rhain a chefnogi'r rhwydweithiau hyn wrth i ni symud ymlaen.

Mae Gyrfa Cymru hefyd yn cynnig mynediad a chymorth i ysgolion ddefnyddio porth ar-lein y Gyfnewidfa Addysg Busnes (EBE). Gall ysgolion ei ddefnyddio i chwilio am

gyflogwyr yn ôl sector a rhanbarth i gefnogi gweithgarwch Gyrfaoedd a Phrofiadau sy'n Gysylltiedig a Byd Gwaith yn eu cwricwlwm. Fodd bynnag, er bod EBE yn cael ei ddefnyddio'n fewnol fel adnodd gan gynghorwyr ymgysylltu â busnesau yn Gyrfa Cymru, prin iawn fu'r defnydd gan ysgolion ers y pandemig ac mae'n well gan ysgolion ymgysylltu â chynghorwyr gyrfaoedd sy'n uniongyrchol gysylltiedig â'r ysgol am gymorth gyda gweithgarwch ymgysylltu â chyflogwyr gan ddefnyddio'r rôl 'froceriaeth' y maent yn ei chynnig.

Heb adnodd ychwanegol sylweddol, ni fyddai'n hyfyw i Gyrfa Cymru gynnig mynediad at yr EBE i ysgolion cynradd. Nid oes ganddynt ddigon o adnoddau i ymgysylltu ag ysgolion cynradd i'w cefnogi ac i gyflogwyr wneud defnydd effeithiol o'r gronfa ddata.

Ar gyfer ysgolion cynradd, mae Gyrfa Cymru yn cynnig 'Wythnosau Darganfod Gyrfa' digidol blynyddol ar gyfer ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd. Mae hefyd yn cynnig mynediad at lyfrgell helaeth o 1,000 a mwy o fideos cyflogwyr – lle mae cyflogwyr yn siarad am eu gyrfaoedd, y gall pobl ifanc, athrawon a rhieni HWB gael mynediad atynt. Yn fwy diweddar, mae'r rhain wedi cael eu troi'n feysydd o becynnau adnoddau dysgu ar gyfer athrawon sy'n gysylltiedig â'r cwricwlwm newydd.

O ran darparu addysg menter, mae Syniadau Mawr Cymru yn darparu cymorth mewn ysgolion cynradd drwy'r Criw Mentrus, mewn ysgolion uwchradd drwy weithdai Modelau Rôl ac i'n colegau a'n prifysgolion lle mae staff yn cael eu cefnogi i ymgorffori eu haddysgu drwy Hyrwyddwr Menter ymroddedig ym mhob un o'n sefydliadau.

Ymwybyddiaeth o'r Biwroau Cyflogaeth a Menter

Argymhelliad 12: Byddai'r Pwyllgor yn croesawu ymateb gan y Gweinidog ynghylch pa waith sy'n cael ei wneud gan Lywodraeth Cymru i hyrwyddo bodolaeth a rôl y biwroau ymhellach, y tu hwnt i'r presenoldeb ar wefan Busnes Cymru.

Y cwsmer uniongyrchol ar gyfer y Biwroau yw'r dysgwyr sydd wedi'u lleoli yn y Colegau sy'n cynnal y Biwroau. Fodd bynnag, mae rhai o'r Biwroau yn archwilio ehangu eu presenoldeb yn y gymuned ehangach drwy 'siopau gwib'. I'r perwyl hwnnw, cyfrifoldeb y Colegau yw hyrwyddo bodolaeth y Biwroau.

Fel y soniwyd yn Argymhelliad 3, ym mis Gorffennaf, trefnodd tîm y Warrant i Bobl Ifanc ddigwyddiad Rhannu Gwybodaeth rhwng staff Biwroau ledled Cymru, ac roedd y drafodaeth yn cynnwys arferion gorau ar hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth o'r Biwroau, gan gynnwys y brandio mewnol a ddefnyddir. Mae rhwydwaith bellach wedi'i sefydlu i barhau i rannu gwybodaeth yn ffurfiol ac yn anffurfiol.

Dylid nodi hefyd fod y Biwroau wedi bod wrthi'n recriwtio staff newydd i gefnogi'r cynnydd yn y galw am eu gwasanaethau, yn ogystal ag uno adrannau mewnol i sicrhau bod cymorth di-dor i'r dysgwyr.

Mae'r Biwroau'n bartneriaid allweddol hefyd ar gyfer cyflogwyr, darparwyr hyfforddiant, Awdurdodau Lleol a Gyrfa Cymru.

Fel y nodwyd, mae pob Biwro yn cael ei hysbysebu ar wefan Busnes Cymru ac mae eu manylion yn rhan o Lyfryn Cyflogwyr sydd ar gael i gyflogwyr i'w hysbysu am yr ystod o gymorth a gwasanaethau sydd ar gael iddynt gan Lywodraeth Cymru a'u partneriaid. Tynnir sylw hefyd at rôl yr Hyrwyddwyr Menter ar wefan Syniadau Mawr Cymru sy'n cyfeirio pobl ifanc at y cymorth sydd ar gael mewn colegau Addysg Bellach os ydynt yn dymuno archwilio mentrau a busnesau newydd.

Hyd yma, mae cysylltiadau ehangach i godi ymwybyddiaeth wedi'u gwneud gyda Darparwyr Hyfforddiant, UCAS, yr Adran Gwaith a Phensiynau, Gyrfa Cymru, Cymru'n Gweithio, Ysbrydoli Rhagoriaeth Sgiliau yng Nghymru a'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol.

Hyfforddiant swydd fel rhan o gymorth pontio ar gyfer disgyblion ag anghenion ychwanegol

Argymhelliad 13: Nodwyd bod rhaglenni Twf Swyddi Cymru Plws a Cymunedau am Waith+ ill dwy'n darparu cymorth i bobl ifanc ag anghenion ychwanegol, ond byddai'r Pwyllgor yn croesawu rhagor o wybodaeth gan y Gweinidog ynghylch cynlluniau ar gyfer mentrau hyfforddi swydd yn y dyfodol ac am gyfraniad Gyrfa Cymru atynt.

Rydym wedi ymrwymo i ddarparu cyfle cyfartal i bob person ifanc. Mae mentora a hyfforddiant cyflogaeth ar gael i bobl ifanc ag anghenion ychwanegol drwy ein rhaglenni cyflogadwyedd. Mae swyddogion yn datblygu opsiynau ar gyfer sut y gellid ehangu hyn, gan gynnwys sut y gallwn brif ffrydio cymorth a choetsio ar gyfer swyddi fel yr arferai prosiectau Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd (ESF), megis Engage to Change, eu cyflawni.

Fodd bynnag, mae hyn yn erbyn cefndir o Lywodraeth y DU yn methu â disodli lefelau blaenorol Cymru o gyllid yr UE yn llawn ac yn hepgor Llywodraeth Cymru wrth gyflwyno'r Gronfa Ffyniant Gyffredin a'r sefyllfa ariannol fwyaf heriol rydym wedi'i hwynebu ers datganoli.

Mewn mannau eraill, mae prentisiaethau a rennir â chymorth yn darparu cymorth i bobl ifanc ag anghenion ychwanegol i gael mynediad at brentisiaeth a'i chwblhau. Darperir cymorth cyflogaeth a dysgu gan goetsiwr swydd penodol ac mae lleoliadau cyflogwyr yn cael eu cyrchu i ddarparu profiad gwaith sy'n galluogi pobl ifanc i gwblhau'r fframwaith prentisiaeth llawn.

Rhwysterau eraill i addysg, hyfforddiant a chyflogaeth

Argymhelliad 14: Byddai'r Pwyllgor yn croesawu unrhyw wybodaeth bellach y gall Gweinidogion yr Economi a'r Gweinidog Addysg ei darparu ynghylch sut y mae Llywodraeth Cymru yn cymhwyso'r gwersi a ddysgwyd wrth roi'r Warrant i Bobl Ifanc a'r Fframwaith Ymgysylltu a Chynnydd leuenctid ar waith, i ystywto cymorth ymhellach i fynd i'r afael â'r rhwysterau ychwanegol a nodwyd gan Gyrfa Cymru a thystion eraill.

Mae'r ymgynghoriad ar y Fframwaith Ymgysylltiad a Chynnydd leuenctid diwygiedig yn 2021 a Sgwrs Genedlaethol 2022-23 y Warrant i Bobl Ifanc wedi tynnu sylw at y

cysylltiad rhwng iechyd meddwl gwael a chyfraddau NEET. Mae tystiolaeth wedi dangos bod nifer y bobl ifanc sy'n profi iechyd meddwl gwael wedi cynyddu yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Yn ogystal, nid yw'r lefelau presenoldeb mewn ysgolion wedi dychwelyd i lefelau cyn y pandemig a sefydlwyd ers tro byd bod patrymau presenoldeb gwael yn aml yn gysylltiedig â materion iechyd meddwl neu lesiant dysgwyr. Mae tystiolaeth anecdotaidd hefyd o bobl ifanc sydd ag ymddygiad mwy heriol, yn dilyn y pandemig.

Yn 2022, cyhoeddwyd canllawiau newydd gennym ar y Fframwaith Ymgysylltiad a Chynnydd leuenctid, a ddaeth ag atal digartrefedd ymysg pobl ifanc o fewn cwmpas y Fframwaith. Mae'r Fframwaith wedi'i ddiweddarau yn cydnabod y gorgyffwrdd a chyd-ddibyniaeth iechyd meddwl a lesiant emosiynol gwael gyda'r risg o ddod yn NEET, neu o fod yn NEET, a'r risg o ddigartrefedd ymysg pobl ifanc. O dan y Fframwaith, dylid dyrannu gweithiwr arweiniol i bobl ifanc sy'n wynebu rhwystrau sylweddol i ymgysylltiad fel eu bod yn derbyn cymorth parhaus.

Mae'r canllawiau'n pwysleisio bod gweithredu'r Fframwaith yn golygu ymrwymiad sylweddol a gwaith cydgysylltiedig gan randdeiliaid ac mae'n rhoi trosolwg o sut mae rhannu data'n gweithio o dan y Fframwaith. Yn gynharach eleni, bu swyddogion Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Gyrfa Cymru i ddatblygu gwybodaeth fanwl i awdurdodau lleol ar rannu data, er mwyn datblygu dealltwriaeth ehangach o brosesau.

Ar 21 Tachwedd, cyhoeddem canllawiau pellach, o dan y Fframwaith Ymgysylltiad a Chynnydd leuenctid, ar nodi'n gynnar bobl ifanc sy'n wynebu risg o ddod yn NEET neu'n ddigartref. Drwy nodi pobl ifanc yn gynnar, gellir rhoi cymorth ar waith i'w cadw ar lwybr cadarnhaol. Bydd y canllawiau'n nodi amrywiaeth o ddangosyddion risg megis presenoldeb yn yr ysgol, gwahardd o'r ysgol, ymddygiad a materion iechyd meddwl. Mae'r canllawiau nodi'n gynnar wedi'u cyd-adeiladu gyda rhanddeiliaid a bydd cyfres o astudiaethau achos yn cyd-fynd â nhw.

At hynny, rydym hefyd yn buddsoddi bron i £8 miliwn i barhau â thri gwasanaeth cyflogaeth sy'n helpu pobl sy'n gwella o salwch corfforol, meddyliol a chamddefnyddio sylweddau i gael gwaith ac i aros mewn gwaith - mae'r Gwasanaeth Allan o Waith a'r Gwasanaeth Cymorth yn y Gwaith, sy'n helpu pobl i ailadeiladu eu bywydau, wedi'u hymestyn tan 2025.

Yn dilyn cynllun peilot llwyddiannus, mae cyllid hefyd wedi'i roi i ymestyn y prosiect Cymorth Lleoliadau Unigol 'Gallaf Weithio' yn y Gogledd. Mae'r gwasanaeth yn darparu cymorth iechyd a chyflogadwyedd integredig i bobl sy'n gwella o iechyd meddwl i gael cyflogaeth, gyda ffocws penodol ar bobl ifanc 16-24 oed.

Rydym hefyd yn buddsoddi £18.4 miliwn i alluogi colegau i weithredu'r Ddeddf ADY a darparu'r cymorth sydd ei angen ar ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol i lwyddo yn eu hastudiaethau a darparu cyfleoedd dysgu proffesiynol i staff ddatblygu darpariaeth ar gyfer dysgwyr ag anghenion cymhleth. Rydym am sicrhau bod AB yn hygyrch i gynifer o bobl ifanc â phosibl, fel y gallant gael mynediad at addysg heb fod angen gadael eu hardal leol. Mewn achosion prin lle nad yw darpariaeth prif ffrwd leol yn gallu diwallu anghenion cymhleth pobl ifanc, rydym yn sicrhau lleoliadau i bobl ifanc mewn sefydliadau AB arbenigol annibynnol.

Vaughan Gething AS
Gweinidog yr Economi

26 Hydref 2023

Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig: Pwysau costau byw a'r Warant i Bobl Ifanc

Annwyl Weinidog

Yn ei gyfarfod ar [28 Medi](#), trafododd y Pwyllgor bwysau costau byw a'r Warant i Bobl Ifanc. Roedd hyn yn waith dilynol ar gyfer sesiwn a gynhaliwyd ym mis [Tachwedd 2022](#). Roedd y cyfarfod yn canolbwyntio'n benodol ar effaith pwysau costau byw ar bobl ifanc a'u cyfleoedd addysg, cyflogaeth a hyfforddiant yn y dyfodol. Cymerwyd tystiolaeth gan Gyrfa Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (Arweinydd Cyngor Sir Ddinbych), Colegau Cymru a Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru.

Mae **Atodiad A** i'r llythyr hwn yn nodi rhai canfyddiadau allweddol a phwyntiau y byddem yn croesawu ymateb iddynt. Yn dilyn y sesiwn, cefais lythyr gan gwmni peirianeg sifil yng ngogledd Cymru yn codi rhai materion perthnasol yn ymwneud â recriwtio a chadw mewn prentisiaethau yn y sector adeiladu. Felly, rwyf hefyd wedi atodi'r ohebiaeth hon, ac mae Atodiad A yn gofyn am ymateb ynghylch y materion penodol hynny.

O ystyried natur drawsbynciol y cyfrifoldebau ar gyfer cyflawni'r ymrwymadau allweddol hyn yn y Rhaglen Lywodraethu, rwyf hefyd yn anfon copi o'r llythyr hwn at Weinidog y Gymraeg ac Addysg i'w ystyried, ac at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg er gwybodaeth.

Cofion cynnes,



Paul Davies AS

Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg

Copi at: Jeremy Miles AS, Gweinidog y Gymraeg ac Addysg

Jayne Bryant AS, Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Effaith pwysau costau byw ar benderfyniadau pobl ifanc

Rhannodd Gyrfa Cymru dystiolaeth anecdotaidd gan gynghorwyr gyrfaoedd am ddewisiadau y mae pobl ifanc yn eu gwneud o ganlyniad i bwysau costau byw, gan gynnwys pryderon ynghylch cyfrannu at incwm cyffredinol y cartref, a dylanwad rhieni ar ddewisiadau pobl ifanc oherwydd sut y gallai effeithio ar fynediad eu rhieni at daliadau budd-dal. Mae hyn yn dylanwadu ar y dewisiadau y mae pobl ifanc yn eu gwneud gan eu bod yn dewis mynd i swyddi sgiliau isel â chyflogau uwch, yn hytrach nag aros yn y coleg neu ar gynlluniau prentisiaeth. Mae cost ac argaeledd trafnidiaeth yn parhau i fod yn rhwystr mawr, ynghyd â chost bwyd a thalu costau eraill ymlaen llaw, gyda Gyrfa Cymru yn sôn am 'storm berffaith' o ffactorau sy'n achosi pobl ifanc i wneud penderfyniadau tymor byr a fydd yn effeithio ar eu rhagolygon gyrfa tymor hwy.

Cafwyd cydnabyddiaeth gan ColegauCymru a Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru am newidiadau cadarnhaol ers i'r Pwyllgor edrych ar y mater hwn flwyddyn yn ôl, gan gynnwys cynnydd mewn cofrestriadau addysg bellach ac yn y niferoedd sy'n defnyddio Twf Swyddi Cymru Plws. Croesawyd y cynnydd yn y Lwfans Cynhaliaeth Addysg a lwfansau eraill i ddysgwyr, ond teimlwyd bod gwelliannau mewn peth data yn parhau i guddio problemau i fyfyrwyr sy'n wynebu caledi ariannol a'r pwysau i gyfrannu at incwm y cartref.

Er enghraifft, disgrifiodd ColegauCymru sut mae eu cronfa amddifadedd yn cael ei defnyddio i flaenoriaethu cymorth i fyfyrwyr sy'n cael trafferth gyda chostau. Dywedodd Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru fod pobl ifanc yn gorfod gadael cartref y teulu i leddfu costau'r aelwyd a symud o un lle i'r llall, tra bod dysgwyr eraill yn cyfrannu at incwm y cartref o'u lwfansau, gan eu gadael â llai o incwm gwario. Nododd cynrychiolydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) ei bod yn arbennig o anodd ymgysylltu â'r bobl ifanc sydd wedi bod yn symud o un lle i'r llall.

Mwy o gymorth ar gyfer costau ymlaen llaw

Er bod cymorth yn cael ei ddarparu i bobl ifanc yn ôl-weithredol, er enghraifft i hawlio costau teithio, dywedodd Gyrfa Cymru fod pobl ifanc yn cael trafferth talu costau ymlaen llaw oherwydd diffyg incwm gwario. Enghraifft arall a roddwyd oedd talu'r gost ymlaen llaw ar gyfer cael cerdyn adnabod gofynnol. Dywedodd Gyrfa Cymru ei fod wedi cynyddu ei gronfa gymorth oherwydd y cynnydd yn y galw.

Argymhelliad 1: Argymhellodd Gyrfa Cymru fod angen gwneud mwy i fynd i'r afael â'r broblem lle mae costau ymlaen llaw yn rhwystro pobl ifanc rhag cael mynediad at gyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant. Byddai'r Pwyllgor yn croesawu ymateb Gweinidogol ynghylch y camau pellach y gall Llywodraeth Cymru eu cymryd i fynd i'r afael â'r broblem benodol hon o dalu costau ymlaen llaw.

Gwerthuso'r Warant i Bobl Ifanc – gwell data

Cynigiodd Gyrfu Cymru rannu data yr oedd yn ei gasglu ynghylch ymadawyr coleg gyda'r Pwyllgor. Roedd yr angen am set ddata well ar draws yr holl bartneriaid cyflawni, gan gynnwys data rhanbarthol i asesu ble mae bylchau a ble yw'r lle gorau i dargedu mwy o gymorth, yn fater hanfodol a godwyd gan y tystion.

Argymhelliad 2: Mae cydweithredu o ran rhannu data yn hanfodol o ran gwerthuso llwyddiant y Warant i Bobl Ifanc, a byddai'r Pwyllgor yn croesawu mwy o wybodaeth ynghylch sut mae Llywodraeth Cymru yn mynd i'r afael â hyn, ac yn sicrhau y caiff data eu rhannu'n effeithiol ar draws y partneriaid i lywio'r gwaith o gyflwyno'r Warant i Bobl Ifanc yn y dyfodol.

Pwysleisiodd Colegau Cymru mai'r her o ran cyflwyno'r Warant i Bobl Ifanc yw rhoi cyngor cywir a diduedd i bob person ifanc am yr ystod lawn o gymorth a rhaglenni sydd ar gael o dan ymbarél y Warant. Nodwyd bod hyn yn rhywbeth a godwyd yn adroddiad diweddar Dr Hefin David AS ar bontio i gyflogaeth ac adroddiad annibynnol Sharron Lusher o'r Bwrdd Adolygu Cymwysterau Galwedigaethol.

Argymhelliad 3: Dywedodd Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru, o ran rhoi cyngor cywir a diduedd am yr ystod o gymorth a rhaglenni sydd ar gael o dan ymbarél y Warant i Bobl Ifanc, fod angen 'ailgryfhau' y bartneriaeth rhwng Gyrfu Cymru a darparwyr hyfforddiant. Byddai'r Pwyllgor yn croesawu pe gallech amlinellu'r camau y byddwch yn eu cymryd i helpu i gyflawni hyn.

Y targed Prentisiaethau a chyfraddau cadw a chwblhau

Mae'r mesurau canlyniadau dysgwyr a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn dangos bod cyfradd cwblhau prentisiaethau wedi gostwng o 81 y cant yn 2018-19 i 66 y cant yn 2021-22. Nododd Gyrfu Cymru nifer o resymau am hyn, gan gynnwys bod llawer o bobl ifanc yn rhoi'r gorau i brentisiaethau i gael cyflogaeth am dâl a fyddai'n caniatáu iddynt ennill dwywaith y gyfradd fesul awr y byddent yn ei hennill fel prentis blwyddyn gyntaf, neu hyd yn oed gymryd swyddi tymhorol, a nodwyd fel problem benodol gan Arweinydd Cyngor Sir Ddinbych. Mae Cydlynnydd Ymgysylltu a Chynnydd yng ngorllewin Cymru yn dweud bod cyfraddau cyflog mewn swyddi rhan-amser yn ei gwneud yn anodd gwerthu prentisiaethau. Bydd gostyngiad yn y cyfraddau cwblhau hefyd yn cynnwys rhai cyflogwyr sydd wedi rhoi'r gorau i gynnig prentisiaethau, ac mae rhai cyflogwyr hefyd wedi dweud wrth Gyrfu Cymru ei bod yn anodd cynnal y lefel gywir o oruchwyliaeth ar gyfer prentisiaethau, neu fod cynhyrchiant is yn y busnes yn rhwystr.

Dywedodd Gyrfu Cymru fod y gwaith y mae UCAS yn ei wneud i hyrwyddo prentisiaethau yn 'llygedyn o oleuni', gan fod tystiolaeth yn awgrymu bod rhai o ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru yn dangos diddordeb.

Argymhelliad 4: Byddai'r Pwyllgor yn croesawu rhagor o wybodaeth am ba asesiad sydd wedi'i wneud o gyflogwyr sydd wedi rhoi'r gorau i gynnig prentisiaethau, a'r rhesymau dros hynny, gan gynnwys y materion a godwyd gan Gyrfa Cymru ynghylch goruchwyliaeth a chynhyrchiant, a pha gamau sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r rhwystrau hynny i gyflogwyr.

Newidiadau i fframweithiau a gofynion sgiliau hanfodol

Codwyd pryderon ynghylch y cyfraddau cwblhau isel iawn ar gyfer prentisiaethau yn y sector gofal, yn enwedig gan fod hwn yn faes y mae galw mawr amdano gan gyflogwyr. Dywedodd Gyrfa Cymru fod gweithredu i ddiwygio'r gofynion sgiliau hanfodol wedi helpu gyda rhai o'r cyfraddau cwblhau, ond bod yna heriau eraill yn parhau o ran cyfraddau cyflog mewn mannau eraill a chostau trafndiaeth. Mae'r Pwyllgor hefyd wedi cael tystiolaeth bod newidiadau i safonau mynediad ffurfiol a gofynion sgiliau yn broblem yn y sector adeiladu (ceir rhagor o fanylion isod).

Dywedodd Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru fod angen i'r broses lle mae Llywodraeth Cymru yn cytuno ar fframweithiau prentisiaethau newydd fod yn gyflymach ac yn fwy ymatebol i anghenion cyflogwyr. **Nodwyd bod oedi wrth gymeradwyo fframweithiau yn broblem, a dywedodd y Ffederasiwn fod angen tîm sy'n canolbwyntio ar gyflogwyr arno, ac yn hytrach nag estyn rhai fframweithiau presennol y dylid canolbwyntio mwy ar yr hyn y mae cyflogwyr yn dweud bod ei angen arnynt, a chyhoeddi fframwaith newydd.** Tynnodd darparwyr sylw at bwysigrwydd gwaith gyda Cymwysterau Cymru i addasu hyd arhosiad cyrsiau yn briodol mewn meysydd fel adeiladu, a hynny i helpu gyda chyfraddau cadw.

Argymhelliad 5: Byddai'r Pwyllgor yn croesawu rhagor o wybodaeth am y camau sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r pryderon a amlygwyd ynghylch y broses o ddylunio a chymeradwyo fframweithiau prentisiaethau, ymatebolrwydd y broses a'r rhan sydd gan gyflogwyr i'w chwarae yn y broses honno.

Prentisiaethau ar gyfer gweithwyr peiriannau

Mae'r Pwyllgor wedi cael gohebiaeth gan Jones Bros Ruthin Co Ltd (yn Atodiad B), cwmni peirianeg sifil blaenllaw, yn codi pryderon penodol ynghylch newidiadau i'r fframweithiau prentisiaethau ar gyfer gweithwyr peiriannau. Mae'r rhain yn cynnwys penderfyniad diweddar gan Lywodraeth Cymru i roi'r gorau i ariannu'r brentisiaeth Lefel 2 a phontio i fframwaith prentisiaeth Lefel 3, sydd, yn wahanol i Lefel 2, yn cynnwys gofyniad i fynychu 700 awr o ddysgu yn yr ystafell ddosbarth dros 3 blynedd tra'n cael cyflog. Er ei fod yn deall y rhesymeg, mae'r cyflogwr yn dweud y byddai 'cyfran sylweddol' yn cael trafferth gyda'r cynnydd yn y galw academaidd ac y bydd hyn yn effeithio'n negyddol ar niferoedd recriwtio. Mae'n nodi nifer o broblemau o ran cyflwyno'r fframwaith newydd sy'n dangos ei bod yn ymddangos nad yw gweithrediad ymarferol y fframwaith Lefel 3 wedi'i ystyried yn ddigonol, ac mae'n credu y gallai'r newid i ganolbwyntio ar ddysgu academaidd atal unigolion mwy ymarferol rhag dilyn gyrfaedd peirianeg sifil.

Dywedodd y cwmni hefyd fod yr amod i brentisiaid peiriannau weithio dros 51 y cant o'u hamser yng Nghymru yn rhwystr. Mae'r cwmni'n mynd ar drywydd prosiectau yn Lloegr a'r Alban oherwydd dirywiad mewn buddsoddiadau seilwaith yng Nghymru, gan ddweud y byddai hyn yn lleihau nifer y prosiectau lle gallai gyflogi prentisiaid gan gadw at y rheol 51 y cant.

Argymhelliad 6: Mae'r Pwyllgor wedi cael gwybod bod cwmni peirianeg sifil blaenllaw yng Nghymru yn ceisio ailbrisiad o'r Fframwaith Prentisiaethau Lefel 3 o ystyried yr heriau ymarferol y mae'n tynnu sylw atynt, ac am hyblygrwydd o ran bodloni'r rheol 51 y cant o oriau gwaith yng Nghymru. Byddai'r Pwyllgor yn croesawu ymateb gan y Gweinidog ar y pwyntiau penodol hyn.

Parch cydradd ar gyfer cymwysterau galwedigaethol a llwybrau dilyniant

Dywedodd Gyrfa Cymru mai un o'r problemau mwyaf y mae'n eu hwynebu yw dangos i rieni, yn hytrach na phobl ifanc eu hunain, y gall prentisiaethau fod llawn cystal â llwybr academaidd traddodiadol, gyda rhai rhieni â meddylfryd eithaf cul o ran bod rhaid astudio Safon Uwch ac yna mynd ymlaen i astudio gradd er mwyn llwyddo.

Argymhelliad 7: Mae Gyrfa Cymru yn derbyn bod angen gwneud mwy i ddangos, i rieni yn arbennig, ei bod yn bosibl symud ymlaen rhwng y lefelau prentisiaeth ar gyfer llwybr gyrfa llawn, gan gynnwys hyd at lefel gradd-brentisiaeth. Nid yw'r pryderon hyn yn rhai newydd, ond byddai barn y Gweinidog ynghylch sut i fynd i'r afael â'r rhwystr hwn yn rhagweithiol yn cael ei groesawu.

Mynd i'r afael â rhwystrau sy'n ymwneud â thaliadau budd-dal

Dywedodd Gyrfa Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru fod hyn yn broblem. Cydnabu Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru fod Llywodraeth Cymru wedi gwneud peth marchnata cadarnhaol eleni, ond mae'n teimlo **bod cyfle** i Lywodraeth Cymru a'r Adran Gwaith a Phensiynau ychwanegu at y negeseuon hynny, i dynnu sylw rhieni at y ffaith na fydd caniatáu i bobl ifanc ymuno â rhaglen Twf Swyddi Cymru Plws a chael mynediad at lwfansau uwch yn effeithio ar eu credyd cynhwysol.

Mae Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru hefyd yn nodi y bydd rhai rhieni'n cefnogi'r person ifanc i ymuno â rhaglen Twf Swyddi Cymru Plws, ond wedyn yn eu hannog i beidio â mynd i gyflogaeth oherwydd yr effaith ar eu budd-daliadau, felly mae angen trafodaeth fwy ynglŷn â sut i fynd i'r afael â'r mater hwn. Mae Sir Ddinbych yn Gweithio yn ymgysylltu â rhieni ond dywedodd fod yr ystadegau'n dangos nad yw'r nifer sy'n manteisio ar hyn mor uchel ag y gallai fod.

Argymhelliad 8: Byddai'r Pwyllgor yn croesawu ymateb gan y Gweinidog ynghylch beth arall y gall Llywodraeth Cymru a'r Adran Gwaith a Phensiynau fel ei gilydd ei wneud i fynd i'r afael â'r rhwystrau sy'n atal pobl rhag manteisio ar raglenni a gynigir o dan y Warrant i Bobl Ifanc oherwydd pryderon ynghylch yr effaith ar daliadau budd-dal aelwydydd.

Gwahaniaethau rhwng rhanbarthau a rhwng ardaloedd gwledig a threfol

Tynnodd Colegau Cymru, Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru a Gyrfa Cymru sylw at y rhaniad rhwng ardaloedd gwledig a threfol Cymru o ran darparu prentisiaethau a mynediad atynt. Yn arbennig, mae **diffyg opsiynau trafndiaeth a/neu gostau trafndiaeth** wedi'u nodi fel problemau mawr i ddysgwyr yng nghanolbarth a gorllewin Cymru. Roedd hyn yn cael ei ystyried yn fwy o broblem na darpariaeth Gymraeg, ond **dywedodd Gyrfa Cymru fod modd gwneud mwy o hyd i hybu ymwybyddiaeth o gyfleoedd i ddysgu yn Gymraeg, ac i bobl ifanc ddeall y galw gan gyflogwyr am weithwyr dwyieithog.**

Argymhelliad 9: Byddai'r Pwyllgor yn croesawu ymateb Gweinidogol ar y gwaith sy'n cael ei wneud i hybu mwy o ymwybyddiaeth o'r cyfleoedd i barhau i ddysgu yn Gymraeg a'r galw mawr gan gyflogwyr am weithwyr dwyieithog.

Mae costau trafndiaeth gormodol yn golygu bod rhai pobl ifanc yn dibynnu ar eu rhieni. Cawsom yr enghraifft o berson ifanc 17 oed ar brentisiaeth y GIG a oedd yn gwbl ddibynol ar riant yn mynd â nhw i'r gwaith ac yn ôl. Yn yr achos hwn, gellid cynnig rhaglen hyblyg i'r prentis, ond ni fydd hyn yn wir bob amser. Hefyd, rhoddodd Colegau Cymru enghraifft o ddysgwr prentis yn Sir Benfro a oedd, oherwydd y gost o deithio i'w gyflogwr yn Aberdaugleddau ac yn ôl, yn gorfod gweithio am ddwy awr a hanner cyn ennill unrhyw dâl i'w gymryd gartref. Mewn ardaloedd gwledig, efallai y bydd angen i rai pobl symud i fyw gydag aelodau eraill o'r teulu i gael mynediad at hyfforddiant neu gerdded yn bell. Dywedodd Gyrfa Cymru fod ysgolion, colegau, darparwyr a chynghorwyr gyrfaoedd yn atgoffa pobl ifanc o gynllun FyNgherdyn Teithio Llywodraeth Cymru ar gyfer bysiau a threnau, ond weithiau roedd cyrraedd gwasanaeth am bris gostyngol yn y lle cyntaf yn fwy o broblem i bobl ifanc.

Nododd Gyrfa Cymru fod mynediad cyfartal yn fwy o broblem gydag unrhyw raglenni hyfforddi mewn ardaloedd gwledig mwy gwasgaredig eu poblogaeth. **Nodwyd diffyg cyllid fel mater i fynd i'r afael ag anghysondebau, a nododd Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru yr angen am gynnydd daearyddol mewn cyllid i helpu pobl ifanc i gael mynediad at hyfforddiant a swyddi, gan gynnwys i'r rhai o gefndiroedd mwy difreintiedig a'r rhai ag anableddau hunanddatganedig.** Hefyd, tynnodd Lisa Mytton o'r Ffederasiwn sylw at y ffaith mai Twf Swyddi Cymru Plws yw'r unig raglen ôl-16 na chafodd y cynnydd o 5 y cant mewn costau byw eleni.

Argymhelliad 10: Byddai'r Pwyllgor yn croesawu ymateb y Gweinidog ar flaenoriaethu cynnydd mewn cyllid i fynd i'r afael â'r gwahaniaethau penodol rhwng rhanbarthau a rhwng ardaloedd gwledig a threfol y mae wedi'u hamlygu o ran mynediad at gyfleoedd am addysg, hyfforddiant a chyflogaeth ledled Cymru.

Cyngor cyson ynghylch gyrfaoedd o lefel ysgol gynradd

Canfu adroddiad sgwrs genedlaethol y Warrant i Bobl Ifanc gan Lywodraeth Cymru fod ysgolion wedi methu â pharatoi pobl ifanc a bod cyngor gyrfaoedd yn ysbeidiol ac wedi'i anelu'n fwy at y rhai sy'n

fwy academaidd. Dywedodd Gyrfa Cymru fod yr adborth hwnnw yn ei synnu, gan ddweud ei fod yn gwneud gwaith mewn ysgolion cynradd i gynnig cymorth dwys, ac wedi datblygu rhai adnoddau i gefnogi athrawon cynradd. Roedd yn pwysleisio pwysigrwydd ymgysylltu dro ar ôl tro â phobl ifanc.

Cefnogi pontio drwy gysylltu ysgolion â chyflogwyr

Nododd gwaith diweddar Dr Hefin David ar bontio i gyflogaeth bocedi o arfer da, ond mae diffyg cysylltiad rhwng ysgolion a chyflogwyr, sy'n effeithio ar y gallu i roi darlun llawn i bobl ifanc o'r cyfleoedd sydd ar gael iddynt. Tynnodd Colegau Cymru sylw at y fenter sy'n cael ei chynnal yng ngorllewin Cymru mewn perthynas â chysylltu ysgolion, cyflogwyr a darparwyr ynghylch sgiliau ar gyfer y sector ynni gwynt ar y môr. Fodd bynnag, mae angen cynyddu arfer da i raddfa ledled Cymru.

Mae gan Gyrfa Cymru fynediad at gronfa ddata o gyflogwyr, sy'n rhywbeth nad oes gan ysgolion ar hyn o bryd. Mae colegau yn cyflogi pobl i chwilio am gyflogwyr, ond nid oes gan ysgolion fynediad at y gronfa hon o gyflogwyr, ac maent yn dibynnu ar rwydwaith anffurfiol o rieni sy'n gyflogwyr neu sydd â chysylltiadau â chyflogwyr. Byddai budd i'r ddwy ochr i ysgolion sy'n cynnig mynediad i ddisgyblion 11 i 16 oed, a cholegau sy'n cynnig gwell mynediad i ysgolion at gyflogwyr. Dywedodd Gyrfa Cymru fod ganddynt fynediad at gronfa ddata cyfnewid busnes addysg o 10,000 o gyflogwyr y gellid ei datblygu'n gronfa ddata profiad gwaith - gallai hwyluso gwell cysylltiad rhwng addysg bellach ac ysgolion, a byddai'n croesawu'r dull hwnnw, ond byddai angen cyfarwyddeb gan Lywodraeth Cymru.

Argymhelliad 11: Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn darparu cyfarwyddyd clir i sicrhau bod colegau ac ysgolion yn cydweithio i helpu dysgwyr i symud ymlaen i gyflogaeth, gan gynnwys drwy gytundeb lefel gwasanaeth ynghylch rhannu a chyfnewid gwybodaeth rhwng addysg bellach ac ysgolion, gyda Gyrfa Cymru yn gweithredu fel 'brocer gonest' yn hyn o beth. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y gofyniad hwn am gytundeb lefel gwasanaeth ynghylch rhannu a chyfnewid gwybodaeth yn cael ei gynnwys yn llythyrau cylch gwaith Llywodraeth Cymru ar gyfer Gyrfa Cymru a'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil.

Ymwybyddiaeth o'r Biwroau Cyflogaeth a Menter

Rhoddodd Colegau Cymru rai ffigurau pennawd cadarnhaol am lwyddiant y biwroau o ran helpu myfyrwyr addysg bellach i gael lleoliadau gwaith a sgiliau hanfodol ar gyfer cyflogaeth, ond dywedodd Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru fod angen gwneud mwy o waith i godi ymwybyddiaeth ymhlith pobl ifanc o fodolaeth y biwroau.

Argymhelliad 12. Byddai'r Pwyllgor yn croesawu ymateb gan y Gweinidog ynghylch pa waith sy'n cael ei wneud gan Lywodraeth Cymru i hyrwyddo bodolaeth a rôl y biwroau ymhellach, y tu hwnt i'r presenoldeb ar wefan Busnes Cymru.

Hyfforddiant swydd fel rhan o gymorth pontio ar gyfer disgyblion ag anghenion ychwanegol



Mae Gyrfa Cymru yn gweld rôl i'w hun mewn mentrau hyfforddi swyddi fel yr hyn a gynigir gan y prosiect Engage to Change ym Mhrifysgol Caerdydd i'r rhai ag anghenion dysgu ychwanegol, ond nododd y gallai cyllid fod yn rhwystr i estyn y gwaith hwn, gan fod y prosiect hwnnw bellach wedi dod i ben.

Argymhelliad 13: Nodwyd bod rhaglenni Twf Swyddi Cymru Plws a Cymunedau am Waith+ ill dwy'n darparu cymorth i bobl ifanc ag anghenion ychwanegol, ond byddai'r Pwyllgor yn croesawu rhagor o wybodaeth gan y Gweinidog ynghylch cynlluniau ar gyfer mentrau hyfforddi swydd yn y dyfodol ac am gyfraniad Gyrfa Cymru atynt.

Rhwystrau eraill i addysg, hyfforddiant a chyflogaeth

Nododd Gyrfa Cymru gynnydd mewn absenoldebau; problemau o ran cyswllt â phlant sy'n cael eu haddysgu heblaw yn yr ysgol; a rhannu data anghyson rhwng awdurdodau lleol fel rhwystrau ychwanegol i gyrraedd rhai pobl ifanc. Roedd yn nodi pryderon ynghylch cyrraedd y niferoedd targed o bobl ifanc yn y misoedd nesaf, y tu hwnt i'r 'amser brig' i ddod i gyswllt â hwy ar ddechrau'r flwyddyn academaidd.

Soniodd Gyrfa Cymru hefyd am yr anawsterau o ymgysylltu â phobl ifanc â phroblemau ymddygiad, gorbryder difrifol neu broblemau iechyd meddwl eraill, diffyg hyder a diffyg hunan-barch, a'r rhai sy'n ynysig iawn ac yn anaml, os o gwbl, yn gadael y tŷ. Cydnabuwyd bod Twf Swyddi Cymru Plws wedi'i ddyfeisio i fod yn hyblyg i ymaddasu i ddiwallu anghenion y bobl ifanc hyn sydd anoddaf eu helpu, meithrin presenoldeb a hyder yn raddol, cynnig 'darpariaeth arbenigol' i fynd i'r afael â materion penodol megis cyngor ar ddyledion a chyllidebu, ac estyn allan at bobl ifanc mewn lleoliadau penodol fel clybiau bocsi. Pwysleisiwyd y cyfle i barhau i ailgysylltu â'r bobl ifanc hyn mewn 'gêm hir', a phwysigrwyd gweithio mewn partneriaeth yn y Fframwaith Ymgysylltu a Chynnydd leuenctid.

Argymhelliad 14: Byddai'r Pwyllgor yn croesawu unrhyw wybodaeth bellach y gall Gweinidogion yr Economi a'r Gweinidog Addysg ei darparu ynghylch sut y mae Llywodraeth Cymru yn cymhwyso'r gwersi a ddysgwyd wrth roi'r Warrant i Bobl Ifanc a'r Fframwaith Ymgysylltu a Chynnydd leuenctid ar waith, i ystytho cymorth ymhellach i fynd i'r afael â'r rhwystrau ychwanegol a nodwyd gan Gyrfa Cymru a thystion eraill.

Anthony (Tony) Murphy
Head of HR & Business Management Systems
Jones Bros. Ruthin (Civil Engineering) Co. Ltd
Ty Glyn, Canol Y Dre,
Ruthin,
Denbighshire
LL15 1QW
anthonym@jones-bros.com
01824 703661

27th September 2023

Mr. Paul Davies MS
Chair of the Economy, Trade and Rural Affairs Committee
Senedd Cymru - Welsh Parliament
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1SN

Dear Mr. Paul Davies MS,

Subject: Concerns Regarding Changes to Apprenticeship Frameworks for Plant Operatives

I hope this letter finds you well. I am writing to you on behalf of Jones Bros. Ruthin (Civil Engineering) Co. Ltd, a leading civil engineering company based in North Wales. As the Chair of the Economy, Trade and Rural Affairs Committee in the Senedd, we believe you can help us address a pressing issue that has recently emerged in our industry.

Jones Bros has been a prominent figure in the field of civil engineering for several decades, and we have consistently invested in the development and retention of a highly skilled workforce. One of the cornerstones of our approach has been our commitment to apprenticeship schemes, which have played a pivotal role in shaping the careers of numerous individuals and supporting our operations.

Our apprenticeship programs have been integral to our ability to self-deliver many of our projects, as they enable us to grow a workforce of professionally qualified Engineers, Ecologists, Surveyors, Plant Operatives, and other professional support roles. Over the years, we have taken great pride in our training initiatives, including our 4-year Higher Engineer apprenticeship scheme and our Operative training scheme, which was formerly a Level 2 Plant Operative apprenticeship.

We have successfully delivered the Plant Operative Level 2 apprenticeship in-house at our accredited training centre for over a decade. This approach allowed us to train apprentices on various plant equipment within our facilities and according to our timeframes. These apprenticeships have been a crucial part of our strategy and have yielded excellent results.

Jones Bros Ruthin (Civil Engineering) Co Ltd
Ty Glyn, Canol Y Dre, Ruthin, Denbighshire, LL15 1QW
Tel: 01824 703661 **Email:** information@jones-bros.com **www.jones-bros.com**

Registered in England and Wales: 00983459



Over the last 10 years Jones Bros has recruited more than 308 apprentices with an 87 to 90% completion rate.

One of the key points of concern arises from the recent decision by the Welsh Government to cease funding the Level 2 apprenticeship and transition to a Level 3 apprenticeship framework. While we understand the rationale behind this change, we are confronted with several challenges that need to be addressed.

Under the Level 3 framework, apprentices are required to attend 700 hours of classroom-based learning at college over three years, during which we would need to continue paying their wages. Unlike the Level 2 framework, which had no formal entry standards, the Level 3 apprenticeship expects learners to have a good basic understanding of English and Math. It is recommended that they develop further formal skills in these areas, such as Essential Skills or GCSEs.

Up until this point, our only requirements for prospective plant apprentices have been that they must be at least 18 years old, possess a valid driver's license, and be willing to work away from their place of residence.

The Level 3 apprenticeship does not require specific formal entry criteria. Nevertheless, on the City & Guilds Skills for Wales website, you can find information regarding Construction – Plant Operations Level 3, which outlines the following details:

“There are no formal English and maths entry requirements for these qualifications. But it is expected that learners will have a good basic understanding of English and maths. It is recommended learners develop further formal English and Maths skills, such as Essential Skills or GCSEs to support successful progression with this programme”.

Our experience indicates that a significant proportion of apprentices who successfully completed the Level 2 framework would struggle with the increased academic demands of the Level 3 apprenticeship. Many of these individuals might not even complete the Level 3 due to their difficulties with English and Math. Given our history with such applicants, we believe they would be reluctant to sign up for the Level 3 apprenticeship, making it challenging to maintain our previous recruitment numbers.

Moreover, the Level 3 apprenticeship extends the overall duration by almost a year compared to the Level 2, and the requirement for apprentices to spend over 700 hours in college further complicates our ability to run the program effectively, given the diverse and widespread nature of our projects across the UK.

Furthermore, we would like to highlight that the additional 700 hours of learning required in the Level 3 apprenticeship framework introduces learning objectives that would typically be covered at a much later stage in a civil engineering career, typically as individuals progress into site supervision roles. The standard entry level for personnel on civil engineering project sites is the Site Supervision Safety Training Scheme (SSSTS), followed by advancement to the Site Management Safety Training Scheme (SMSTS). The transition period between completing the Level 2 apprenticeship we had been delivering and entering into site supervision roles is vital. During this period, less academically inclined operatives have the opportunity to gain valuable hands-on experience on construction sites. This practical experience greatly enhances their chances of building a successful and fulfilling career in the civil engineering industry.

We believe that the shift to the Level 3 framework, with its focus on academic learning, could inadvertently discourage individuals who are more practically inclined from pursuing careers in civil engineering. It is

Jones Bros Ruthin (Civil Engineering) Co Ltd

Ty Glyn, Canol Y Dre, Ruthin, Denbighshire, LL15 1QW

Tel: 01824 703661 Email: information@jones-bros.com www.jones-bros.com

Registered in England and Wales: 00983459



essential to acknowledge the importance of practical experience in our industry and find a way to strike a balance between academic knowledge and on-the-job skills development.

In the third year of the Level 3 apprenticeship, apprentices must complete a practical project on all four machines within the apprentice framework. Each project requires an assessor to carry out two site visits, resulting in a total of eight visits per apprentice. Currently, we do not possess the necessary resources to handle this workload alongside the number of apprentices we employ.

Another significant challenge is the stipulation that Plant Operative apprentices must work over 51% of their time in Wales. With a decline in infrastructure investments in Wales, we are actively pursuing projects in England and Scotland, which inevitably reduces the number of projects where we can employ apprentices while still adhering to the 51% rule.

Our primary concern is that the practical implementation of the Level 3 framework appears to have been inadequately considered, leaving us with numerous unanswered questions regarding the future of the individuals we have been offering opportunities to for over a decade.

Considering these challenges, we kindly request your support in addressing the following issues:

- Revaluation of the Level 3 Apprenticeship Framework: We urge the Welsh Government to reconsider the move to the Level 3 apprenticeship framework for Plant Operatives considering the practical challenges it presents to employers like Jones Bros.
- Adaptation to Changing Work Opportunities: Given our expanded operations in other parts of the UK, we ask for flexibility in meeting the 51% working time requirement in Wales.

We kindly request your support in addressing these concerns and finding a way to ensure that the apprenticeship framework aligns with the realities of the civil engineering field. Your assistance in advocating for these necessary adjustments will contribute to the continued growth and prosperity of the industry while providing opportunities for individuals from diverse backgrounds to succeed within it.

Thank you for your attention to this matter, and we look forward to your response. If you require any further information or would like to discuss this issue in more detail, please do not hesitate to contact me at anthonym@jones-bros.com or 07768 375714.

Sincerely,



Anthony (Tony) Murphy
Head of HR & Business Management Systems
Jones Bros. Ruthin (Civil Engineering) Co. Ltd

Jones Bros Ruthin (Civil Engineering) Co Ltd
Ty Glyn, Canol Y Dre, Ruthin, Denbighshire, LL15 1QW
Tel: 01824 703661 Email: information@jones-bros.com www.jones-bros.com

Registered in England and Wales: 00983459



Lesley Griffiths AS

Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd

26 Hydref 2023

**Protocol i Ddiwygio Cytundeb Marrakesh sy'n Sefydlu Cytundeb Sefydliad Masnach y Byd ar
Gymorthdaliadau Pysgodfeydd**

Annwyl Lesley

Mae'r Pwyllgor yn ymwybodol bod y cytuniad hwn, ynghyd â Memorandwm Esboniadol, wedi cael ei osod gerbron Senedd y DU a bod y cyfnod craffu cychwynnol ar ei gyfer yn dod i ben ar 21 Tachwedd. Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu atoch i ofyn am wybodaeth ychwanegol am y canlynol:

- eich barn am y Protocol;
- ymgysylltiad Llywodraeth Cymru â Llywodraeth y DU yn ystod y trafodaethau ar ei delerau;
- pa drefniadau mewnol sydd ar waith i fonitro, arsylwi a gweithredu'r Protocol mewn meysydd datganoledig; ac
- asesiad Llywodraeth Cymru i weld a oes angen cymryd unrhyw gamau, gan gynnwys newidiadau deddfwriaethol neu ymarferol, i sicrhau bod Cymru'n cydymffurfio â'r Protocol mewn meysydd datganoledig.

Edrychaf ymlaen at gael eich ymateb cyn gynted â phosibl

Cofion cynnes,



Paul Davies AS

Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg



Paul Davies AS
Cadeirydd, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig
Senedd Cymru

SeneddEconomi@senedd.cymru

21 Tachwedd 2023

Annwyl Paul,

Diolch am eich llythyr ar 26 Hydref, ynghylch y Protocol i Ddiwygio Cytundeb Marrakesh Sefydlu Sefydliad Masnach y Byd (WTO) - Cytundeb ar Gymorthdaliadau i Bysgodfeydd (y Cytundeb).

Mae potensial gan Gytundeb Sefydliad Masnach y Byd ar Gymorthdaliadau i Bysgodfeydd i leihau achosion o orbysgota, a physgota anghyfreithlon ac anrheoleiddiedig nas hysbysir amdano (IUU) ar lefel byd-eang. Cyn belled â bod Llywodraeth y DU yn gweithredu yn rhesymol ac ar y cyd, nid wyf yn credu y bydd telerau'r Cytundeb yn cyfyngu'n ormodol ar allu Llywodraeth Cymru i gefnogi'r diwydiant pysgota môr yng Nghymru.

Ychydig o drafod a fu gan swyddogion Llywodraeth y DU a swyddogion Llywodraeth Cymru cyn i'r Cytundeb gael ei gymeradwyo yng Nghynhadledd Weinidogol Sefydliad Masnach y Byd ym mis Mehefin 2022.

Prif ofynion y Cytundeb newydd yw ymatal rhag darparu cymorthdaliadau i weithredwyr cychod pysgota dalfeydd gwyllt mewn rhai amgylchiadau a gwell adroddiadau ar dryloywder cymorthdaliadau yn unol â'r trefniadau presennol o dan Gytundeb Sefydliad Masnach y Byd ar Gymorthdaliadau a Mesurau Gwrthbwysol.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 72
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

O drafodaethau ar lefel swyddogol, rwy'n disgwyl y gellir addasu cynlluniau cymorth ariannol presennol, gweithdrefnau monitro rheoli a gorfodi a rhannu data er mwyn gweithredu'r Cytundeb yng Nghymru. Nid oes disgwyl i'r ddeddfwriaeth fod yn angenrheidiol. Fodd bynnag, bydd hyn yn parhau i gael ei adolygu tra bod y camau ymarferol i weithredu'r Cytundeb ar draws awdurdodaethau'r DU yn cael eu datblygu a'u trafod gyda Llywodraeth y DU a'r Llywodraethau Datganoledig.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink that reads "Lesley Griffiths". The signature is written in a cursive, flowing style.

Lesley Griffiths AS/MS
Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd
Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd

Llyr Gruffydd AS,
Cadeirydd Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

Paul Davies AS,
Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

John Griffiths AS,
Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai

2 Tachwedd 2023

Annwyl bawb,

Y Bil Ffyniant Bro ac Adfywio

Hoffem dynnu eich sylw at yr **ohebiaeth** a gawsom ar 17 Hydref gan y Gweinidog Newid Hinsawdd mewn ymateb i'n **hadroddiad** ynghylch y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 4) ar y Bil Ffyniant Bro ac Adfywio.

Efallai y bydd y paragraff a ganlyn yn llythyr y Gweinidog, mewn ymateb i Argymhellion 8 a 10 yn ein hadroddiad, o ddiddordeb penodol ichi:

"Nid oes i'r Bil Ffyniant Bro ac Adfywio unrhyw oblygiadau uniongyrchol i'r dyletswyddau ar Lywodraeth Cymru yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Fodd bynnag, mae'n creu tirlun polisi a allai beri dryswch o gofio ein bod wedi pennu'r nodau llesiant hirdymor i Gymru gyda dangosyddion cysylltiedig a cherrig milltir cenedlaethol gan edrych at 2050. Mae gan gyrff cyhoeddus ddyletswydd o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a byddem yn disgwyl iddynt gyflawni eu dyletswyddau cyfreithiol a llunio a chyflawni amcanion llesiant sy'n cyfrannu at gyflawni nodau llesiant Cymru."

Yn gywir,



Huw Irranca-Davies

Huw Irranca-Davies

Cadeirydd



Julie James AS,
Y Gweinidog Newid Hinsawdd

2 Tachwedd 2023

Annwyl Julie,

Y Bil Ffyniant Bro ac Adfywio

Diolch am eich llythyr dyddiedig 17 Hydref mewn ymateb i'n hadroddiad ynghylch y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 4) ar y Bil Ffyniant Bro ac Adfywio.

Mae gennym rai cwestiynau dilynol ac mae'r rhain wedi'u nodi yn yr Atodiad i'r llythyr hwn. Byddem yn ddiolchgar pe gallech ymateb erbyn 22 Tachwedd 2023. Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig a Chadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai.

Yn gywir

Huw Irranca-Davies

Huw Irranca-Davies

Cadeirydd

Cwestiwn 1: Byddem fel arfer yn disgwyl ymateb gan Lywodraeth Cymru i ddatgan a yw'n derbyn neu'n gwrthod argymhelliad Pwyllgor. Er ei bod yn bosibl canfod bwriad Llywodraeth Cymru o ran rhai argymhellion, nid yw hynny'n bosibl o ran rhai eraill. A fyddech cystal â'n helpu drwy nodi'n glir ar gyfer y cofnod pa argymhellion rydych yn eu derbyn a pha rai nad ydych yn eu derbyn, gan ddarparu unrhyw wybodaeth ychwanegol fel y bo angen?

Cwestiwn 2: Nid oedd eich ymateb yn mynd i'r afael ag argymhelliad 7 yn uniongyrchol. O ganlyniad, cododd Aelodau'r Pwyllgor hyn ddwywaith yn ystod y **ddadl** ynghylch cydsyniad deddfwriaethol (paragraffau 346 a 380 o Gofnod y Trafodion) ond ni fanteisiwyd ar y cyfle hwnnw. Felly, byddem yn ddiolchgar pa gallech ddatgan a yw Llywodraeth Cymru yn parhau i fod o'r farn bod Rhan 1 o'r Bil "yn cynrychioli ymyrraeth amhriodol yng nghymhwysedd deddfwriaethol y Senedd".

Cwestiwn 3: Roedd eich ymateb cyfunol i argymhellion 12 a 13 yn ystyried y materion yn yr argymhellion hynny mewn termau eang iawn. Byddem yn ddiolchgar pe gallech roi ymateb manylach, gan roi'r wybodaeth benodol y gofynnwyd amdani yn argymhellion 12 a 13, yn unol â'r dyddiad cau a bennwyd yn argymhelliad 14. Gwelwn fod y materion perthnasol o bwys sylweddol i'r Senedd, nid yn unig oherwydd y pryderon a fynegwch ym mharagraffau 93 i 103 a pharagraff 111 o'r **Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 4)**.

Cwestiwn 4: Rydym yn gofyn am eich cymorth ychwanegol gydag argymhelliad 18, nad ydym yn teimlo ei fod wedi cael ymateb digonol. Nid ydym yn teimlo bod unrhyw rai o'r memoranda cydsyniad deddfwriaethol yn rhoi lefel briodol o fanylion ynghylch cwrpas y pwerau gwneud rheoliadau y mae'r Bil hwn, sy'n mynd drwy Senedd y DU, yn eu darparu i Weinidogion Cymru. Nodwn hefyd eich bod yn datgan yn eich ymateb i argymhelliad 18 fod rhagor o fanylion yn cael eu rhoi yn yr ymateb i argymhelliad 22, ond nid yw'r manylion hynny'n amlwg. Felly, byddem yn ddiolchgar pe gallech roi'r wybodaeth y gofynnwyd amdani ym mhwynt bwled cyntaf argymhelliad 18.

Cwestiwn 5: Yng ngoleuni eich ymateb i argymhelliad 18, byddai'n ddefnyddiol deall pam rydych wedi cymryd pwerau i wneud rheoliadau drwy Fil gan Lywodraeth y DU pan nad yw'n ymddangos eto eich bod wedi ystyried sut rydych yn bwriadu defnyddio'r pwerau hyn neu pryd y byddwch yn eu defnyddio.

Cwestiwn 6: Yng ngoleuni eich ymateb i argymhelliad 18, a allwch nodi pryd rydych yn bwriadu cyflawni'r ymrwymiad y cyfeiriwch ato, ac felly pryd y byddwch mewn sefyllfa i roi ymateb i ail a thrydydd pwyntiau bwled argymhelliad 18?

Cwestiwn 7: Nid yw argymhelliad 22 wedi cael ymateb digonol yn ein barn ni, yn enwedig gan nad oedd y memoranda cydsyniad deddfwriaethol amrywiol yn tracio newidiadau yn rhifau'r cymalau wrth i'r Bil basio drwy Senedd y DU. Felly, a allwch roi'r wybodaeth y gofynnwyd amdani? Dylai'r

wybodaeth fod ar wahân i'r Nodiadau Esboniadol (os caiff y Bil y Cydsyniad Brenhinol) o ystyried nad yw'r Nodiadau hynny'n debygol o sôn am y berthynas â deddfwriaeth bresennol Cymru (megis *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015*) ac er mwyn rhoi gwybodaeth agored, dryloyw a hygyrch i'r Senedd a rhanddeiliaid Cymru.

Cwestiwn 8. Yn ystod y ddadl, dywedoch:

*"Cawsom sgysiau hir gyda Gweinidogion Llywodraeth y DU ynghylch sut y gallem ni ddiogelu sefyllfa Senedd Cymru a Llywodraeth Cymru o ran gorfod ystyried ein materion arni. Rwy'n fodlon wrth orfod ysgrifennu adroddiad i Senedd y DU sy'n nodi pam mae gennym broblem—oherwydd dyna'r unig reswm pam y bydden nhw'n ei wneud; pe na bai gennym broblem, ni fyddai yna adroddiad o'r fath—byddai'n rhaid iddyn nhw eu hunain fynd trwy broses a fyddai'n gwneud iddyn nhw feddwl pam nad oedden nhw'n gallu edrych ar hynny, ac, wrth gwrs, mae'n amlygu hynny i graffu seneddol. Rwy'n credu ei bod yn debyg y byddem yn gallu datblygu proses debyg yma a fyddai'n ein galluogi i fynegi barn arni. Nid yw'n berffaith, rwy'n cytuno'n llwyr, ond mae'n llawer gwell na lle y dechreuon ni, ac os na wnawn ni hyn, bydd gennym **fwlch yn ein deddfwriaeth**, sy'n llawer gwaeth. Rwy'n derbyn ei fod yn gyfaddawd."* [Cofnod y Trafodion, paragraff 404, ein pwyslais ni]

A allech chi roi rhagor o fanylion am y canlynol:

- y "proses debyg" y cyfeiriwch ati a beth allai hynny ei olygu?
- y bwlch penodol yn neddfwriaeth Cymru sydd bellach yn cael ei lenwi?

Lesley Griffiths AS
Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd
Cymru, a'r Trefnydd

10 Tachwedd 2023

Cynllun Cynefin Cymru

Annwyl Lesley,

Fel y gwyddoch, mae ystod o randdeiliaid wedi mynegi pryderon ynghylch Cynllun Cynefin Cymru. Mae sawl un ohonynt wedi cysylltu â'r Pwyllgor i dynnu sylw at y pryderon hyn, ac felly er bod y materion perthnasol wedi'u gwyntyllu i ryw raddau yn ystod y Cyfarfod Llawn ddoe, rwy'n ysgrifennu i ofyn am ymateb ysgrifenedig gennych cyn ein sesiwn graffu gyda chi ym mis Rhagfyr.

Mae'r rhanddeiliaid sy'n galw ar y Pwyllgor i ymchwilio i'r mater hwn yn cynnwys Cymdeithas y Pridd, Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr Cymru, Undeb Amaethwyr Cymru, Cymdeithas Tir a Busnes Cefn Gwlad Cymru, Rhwydwaith Ffermio er Lles Natur Cymru, Ffermwyr a Thyfwyr Organig, Cynhyrchwyr Cig Oen ac Eidion Cymru Cyf, Ardystiad Bwyd Cymreig o Ansawdd Cyf, Fforwm Organig Cymru, Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru ac RSPB Cymru.

Mae gohebiaeth gan Andrew Tuddenham o Gymdeithas y Pridd yn nodi bod undebau'r amaethwyr, cyrff anllwydraethol a chyrrff rheoli organig i gyd yn adrodd bod ffermwyr sy'n cael cymorth i'w helpu i fabwysiadu arferion ffermio carbon isel er lles natur drwy Glastir yn wynebu toriadau rhwng 60 a 95 y cant i'r cymorth y maent yn ei gael. Gallai hyn, er enghraifft, olygu nad yw gaeafu stoc mynydd oddi ar y fferm neu reoli gweirgloddiau yn hyfyw mwyach.

Cyfraddau talu ac asesiad o'r effaith economaidd

Gwnaethoch nodi yn y Cyfarfod Llawn ar 4 Hydref bod sefyllfa ariannol anffafriol Llywodraeth Cymru wedi cyfyngu ar gwmpas y Cynllun Cynefin Cymru trosiannol. Fodd bynnag, nid yw rhanddeiliaid yn deall yn llawn sut y cafodd y cyfraddau talu eu pennu tra bod cyllideb gyffredinol y cynllun heb ei



chadarnhau. Mae rhanddeiliaid hefyd yn nodi eu bod wedi gweld cynlluniau amaeth-amgylcheddol yn parhau mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig ar ôl i gyllid y Cynllun Datblygu Gwledig ddod i ben; er enghraifft, mae'r Cynllun Stiwardiaeth Cefn Gwlad yn Lloegr yn parhau. Mae rhai ohonynt, felly, yn cwestiynu pam yr oedd yn rhaid dod â Glastir i ben a chyflwyno cynllun trosiannol newydd gyda chyfraddau talu is. Awgrymwyd y gallai'r cynllun trosiannol newydd fod yn opsiwn i newydd-ddyfodiaid, tra gallai'r unigolion sydd eisoes â chontractau Glastir fod wedi parhau o dan yr un system.

Roedd Glastir yn gynllun a oedd yn cwmpasu'r fferm gyfan, tra bod Cynllun Cynefin Cymru yn seiliedig ar daliad fesul hectar o lecynnau cymwys o gynefin, gan gyflwyno elfen daprog drwy gapio'r taliadau. Dywedodd undebau'r amaethwyr y byddai'r unigolion sydd â'r arwynebedd fwyaf o gynefin ar eu ffermydd, ac felly'r potensial gorau i weithredu er lles natur, yn cael eu cosbi, sy'n newid sylweddol o gynllun Glastir. Mae pryderon wedi'u mynegi bod y newid hwn wedi'i wneud heb ymgynghoriad a heb foddelu'r effaith ar hyfywedd busnesau. Bellach, gofynnir i ffermwyr sydd wedi symud tuag at arferion rheoli tir cynaliadwy dros nifer o flynyddoedd addasu i ostyngiad sylweddol mewn incwm dros gyfnod o 6 mis, sydd, yn ôl undebau'r amaethwyr, yn golygu bod ffermwyr mewn sefyllfa fregus, heb ddigon o amser i addasu. Maent yn pwysleisio, felly, nad yw Cynllun Cynefin Cymru yn cyflawni pob un o'r amcanion ar gyfer rheoli tir yn gynaliadwy a nodwyd yn *Neddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023*. Mae pryderon wedi'u mynegi hefyd y bydd y system hon o gyfraddau talu yn gosod cysail ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy.

Byddai'n ddefnyddiol pe gallech egluro'r rhesymeg a'r fethodoleg a ddilynwyd i bennu'r cyfraddau talu, yn ogystal ag egluro pam na chynhaliwyd unrhyw asesiad o'r effaith economaidd nac ymgynghoriad penodol ar Gynllun Cynefin Cymru, a pham na wnaed unrhyw waith modelu arno, cyn i'r cynllun gael ei gyflwyno. Os yw gwaith modelu o'r fath ac asesiad o'r effaith economaidd yn yr arfaeth, byddai'n ddefnyddiol cael rhagor o fanylion am y gwaith hwnnw.

Nifer yr amaethwyr sy'n manteisio ar y cynllun

Ar 8 Tachwedd, gwnaethoch ddweud wrth y Cyfarfod Llawn bod 1,600 o amaethwyr wedi gwneud cais am gymorth gan y cynllun, gan ychwanegu nad yw 40 y cant o'r rheini yn rhan o'r cynllun Glastir ar hyn o bryd. O ystyried bod tua 3,000 o amaethwyr yn rhan o'r cynllun Glastir yng Nghymru ar hyn o bryd, pa mor hyderus ydych chi y bydd y niferoedd sy'n manteisio ar y cynllun newydd yn cyrraedd yr un lefel ag o dan Glastir, ac na fydd unrhyw ddirywiad mewn arferion rheoli tir cynaliadwy o ganlyniad i'r niferoedd sy'n manteisio ar y cynllun newydd? A yw'r nifer sy'n manteisio ar Gynllun Cynefin Cymru ar hyn o bryd yn peri pryder ynghylch y nifer a fydd yn manteisio ar y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn y dyfodol?

Os bydd llai o amaethwyr yn rhan o Gynllun Cynefin Cymru o gymharu â Glastir, mae rhanddeiliaid hefyd wedi mynegi pryderon y gallai'r gyllideb a ddyrennir i gynllun sydd i bob pwrpas yn disodli'r cynllun blaenorol yn cael ei cholli o'r sector. Mae rhanddeiliaid yn galw i'r gyllideb hon gael ei



chlustnodi ar gyfer amaethyddiaeth. Yng nghyd-destun dyraniadau cyllidebol cyfyngedig, mae'r pryderon hyn yn ddilys ac mae'n ddealladwy bod y sector yn eu mynegi. Mae rhanddeiliaid yn ymwybodol y byddwn yn gwneud gwaith craffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25 yn y flwyddyn newydd, ond byddem yn croesawu sicrwydd gennyh ynghylch yr arian a ddyrannwyd i Gynllun Cynefin Cymru eleni.

Diffyg cefnogaeth i ddull organig sy'n cynnwys y fferm gyfan

Mae ystod o randdeiliaid wedi mynegi pryderon nad yw Cynllun Cynefin Cymru yn darparu cymorth ar gyfer rheolaeth organig ardystiedig sy'n cynnwys y fferm gyfan. Dywed Cymdeithas y Pridd fod nifer o amaethwyr yn nodi y byddant yn troi at arferion mwy dwys i gynnal eu hincwm. I gefnogi'r datganiad hwn, atodaf ganlyniadau arolygon diweddar a gynhaliwyd gan nifer o sefydliadau, sy'n dangos effaith andwyol ddisgwyliedig y cynllun ar lefel y fferm o safbwynt rhai ffermwyr. Mae'r safbwyntiau a fynegwyd yn trafod y risg o golli amaethwyr organig yn ogystal ag amaethwyr sydd eisoes wedi ymrwmo i egwyddorion rheoli tir yn gynaliadwy sy'n sail i'r dull gweithredu newydd o ran cymorth amaethyddol yng Nghymru. Byddai hynny'n ganlyniad anfwriadol anffodus iawn wrth weithredu'r cynllun trosiannol hwn.

Problemau mapio

Cafodd materion ynghylch y fethodoleg a ddilynwyd ar gyfer mapio eu codi gyda chi yn y Cyfarfod Llawn, a rhoesoch sicrwydd ar 24 Hydref bod y materion hynny bellach wedi'u datrys. Mae rhanddeiliaid yn pryderu y gallai'r diffygion yn y fethodoleg ar gyfer Cynllun Cynefin Cymru fod â goblygiadau i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy os yw'r un fethodoleg yn cael ei defnyddio.

Mae'n bwysig inni gael hyn yn iawn i ffermwyr, ac felly byddwn yn ddiolchgar pe gallech nodi sut y byddwch yn sicrhau na fydd unrhyw faglau a phroblemau cychwynnol gyda Chynllun Cynefin Cymru yn cael eu hailadrodd wrth ddylunio a gweithredu'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy.

Goblygiadau i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy

Mae ystod o randdeiliaid wedi mynegi pryderon y gallai Cynllun Cynefin Cymru, er y bwriadwyd iddo bontio'n ddi-dor i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy, yn hytrach arwain at ganlyniadau economaidd ac amgylcheddol difrifol i Gymru, gan rwystro'r broses o weithredu'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy o'r cychwyn cyntaf.

Nid dim ond problem i'r amaethwyr sy'n rhan o Glastir ar hyn o bryd ac sydd wedi ymrwmo i arfer gorau mewn rheoli tir yw'r materion sy'n codi gyda Chynllun Cynefin Cymru. Gallai'r materion hyn hefyd danseilio hyder yn null gweithredu'r dyfodol o dan y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, ac yn y cysyniad y bydd ffermwyr sy'n ymuno â'r cynllun hwn yn cael taliad teg am sicrhau canlyniadau amgylcheddol.

Er mai dim ond ychydig o amser sydd gennym i ymdrin â'r materion hyn mewn perthynas â'r Cynllun Cynefin Cymru presennol, hoffai rhanddeiliaid gael sicrwydd y bydd y materion perthnasol wedi'u datrys cyn i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy gael ei gyflwyno yn 2025.

Edrychaf ymlaen at eich ymateb i'r materion a godwyd.

Cofion cynnes,



Paul Davies AS

Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Amg: HWS Farm Impacts shareable.xls

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg



	A	B	C	D	E	F	G	H	I	J	K	L	M	N	O	P	Q	R	S	T	U	V	
Item type and use	Leaf Shrub & conifers		General livestock, 2 holdings and/or one business, 1000ha and 85%	44.94 Ha Upland	0.5 Ha Lowland	17 Ha Upland	11.88 Ha Upland	28.34 Ha Upland	Upland meadows, 1,200ha	Central Upland sheep farm 180ha total inc 40ha enclosed	Mixed lowland & Wales 225ha	Lowland mountain farm 600ha	Lowland dairy, SW Wales 100ha	Lowland dairy, SW Wales 52ha	Central dairy, SW Wales 72ha	Upland sheep	48.0ha						
Subsidy area (ha)	10.00ha	10.10ha	242ha (actual)	35.88 Ha	19.09 Ha	50 Ha	19 Ha	28.34 Ha	1,100ha	300ha – all SPS, SPA, SAC, SPA	100ha ex post Habitat Wales Scheme	600ha	4,25ha	82ha	0ha								
Woodland area (ha)	1.07ha		25 ha	10 Ha	0.87 Ha	5	0.87 Ha	0.56 Ha		0	20ha included above	0ha											
Current Glacis Advanced payment	£1,874	£1,945	£19,802	£4,948	£1,874	£10,000	£1,540	N/A	Unsubsidised	£10,000	£70,000	0	0	0	0	£600 Advanced	£1,117.75	£40,000.00	£40,000.00	£15,000.00	£1,600.00	£13,500.00	
Organic 5% - if any organic payment	0	0	0	Conversion since 1/1/21	0	0	0	N/A	0	£112,210	£18,100	£7,100	£4,500	£4,800	0	0	0	0	0	0	0	£14,820	
Total subsidy payment	£1,874	£1,945	£19,802.0	£4,948.0	£1,874.0	£10,000.0	£1,540.0	N/A	Unsubsidised	£10,000	£70,000	£7,100	£4,500	£4,800	£0	£600	£1,117.75	£40,000.00	£40,000.00	£15,000.00	£1,600.00	£13,500.00	
Habitat Wales Scheme (WGS) payment	£1,112	£1,403	£897.7 (100)	£1,795.0	£1,112.0	£1,500.0	£1,330.0	£1,900.0	10%	£300 total, Yes this is correct, but if had been in Glacis it would be £20,000 approx.	£7,000	£2,000	£293	£607	£414								
WGS payment (if previous value Glacis)	27%	30%	7% (of actual area of habitat)	10%	2%	15%	4%	13%	15% <td>15% of farm had been in Glacis</td> <td>1%</td> <td>2%</td> <td>4%</td> <td>1%</td> <td>1%</td> <td></td> <td></td> <td></td> <td></td> <td></td> <td></td> <td></td>	15% of farm had been in Glacis	1%	2%	4%	1%	1%								
Impact of WGS payment on the overall support received	8% (£4,503) reduction	4% (£2,243) reduction	15% reduction (if actual area of habitat)	6% (£116) reduction	8% (£456.2) reduction	6% (£4500) reduction	7% (£4100) reduction	N/A															
Farmer response	We have limited the amount of habitat land eligible for the scheme. We have provided a breakdown of habitat land to individual habitat holders and we have been monitoring the uptake of the scheme. We have been monitoring the uptake of the scheme and we have been monitoring the uptake of the scheme. We have been monitoring the uptake of the scheme and we have been monitoring the uptake of the scheme.	We have limited the amount of habitat land eligible for the scheme. We have provided a breakdown of habitat land to individual habitat holders and we have been monitoring the uptake of the scheme. We have been monitoring the uptake of the scheme and we have been monitoring the uptake of the scheme.	When calculating the amount of habitat land eligible for the scheme, we have provided a breakdown of habitat land to individual habitat holders and we have been monitoring the uptake of the scheme. We have been monitoring the uptake of the scheme and we have been monitoring the uptake of the scheme.	With combination of common land reduction in payment this makes upland farming viable	Should consider renting farm out to dairy farmer next door	Considering planting white birch in trees	Should be land out as horse and/or beef and/or sheep and/or flowers meadow	Not worth the hassle of being in a scheme and being controlled. Current farm is a WGS Hay Flower Meadow Pilot project	For the Glacis and Glacis - heavy reductions in sheep, but to be independent vegetation change. The fact that new transactions since the Glacis and Glacis have been their father, the next generation taking over would not have done so either than the support for habitat schemes. They were looking to support the work being done in the habitat. Less than a 3rd of the Glacis payment is a heavy loss, and cannot be replaced, and is not being replaced, and is not being replaced.	had nothing before and will get nothing going forward. So, in terms of no change. But the fact that new transactions since the Glacis and Glacis have been their father, the next generation taking over would not have done so either than the support for habitat schemes. They were looking to support the work being done in the habitat. Less than a 3rd of the Glacis payment is a heavy loss, and cannot be replaced, and is not being replaced.	We have 25 years worth of aggregated environmental goods that will be lost as we will need to intensify production to try to make up the shortfall. It also means we will have to live with reduced winter sheep numbers, the smaller payments will not pay the cost of overwintering the ewes. Our willpower they have been a 97% cut in payments due to the reduced payment and the capping of payments. These payments of sheep, the 1995 does not recognise them!	have embraced the Glacis and Organic schemes, making huge reductions in sheep numbers on the mountain. In 1995 we still have to comply with reduced winter sheep numbers, the smaller payments will not pay the cost of overwintering the ewes. Our willpower they have been a 97% cut in payments due to the reduced payment and the capping of payments. These payments of sheep, the 1995 does not recognise them!	Not worth the hassle of being in a scheme and being controlled. Current farm is a WGS Hay Flower Meadow Pilot project	We have 25 years worth of aggregated environmental goods that will be lost as we will need to intensify production to try to make up the shortfall. It also means we will have to live with reduced winter sheep numbers, the smaller payments will not pay the cost of overwintering the ewes. Our willpower they have been a 97% cut in payments due to the reduced payment and the capping of payments. These payments of sheep, the 1995 does not recognise them!	Can take pain for a year or so, as the overall direction that is moving and other money will be available within the SPS in 2021.	Payment is an insult to organic farmers who are guardians of Nature. This has a serious impact on the financial business of small family farms. Decisions to retain our farm in the Glacis are not ours to make. Control effort registering organic!	Set our SPS and we will not be able to pay the price of £120 for organic / £120 conventional. We will lose our organic status and our land will revert to conventional. Means to live of artificial fertilizer and chemicals. Losing the ethos and practice of sustainable farm (10) in the SPS?	What is the cost of being a Guardian of Nature? Does Climate Change matter to you as well as you to Capitalism?					

Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith
Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a
Chysylltiadau Rhyngwladol
Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai

14 Tachwedd 2023

Annwyl Gadeiryddion Pwyllgorau,

Cyllideb ddrafft 2024-25

Ysgrifennais atoch ym mis Ebrill i sôn am waith ymgysylltu'r Pwyllgor Cyllid cyn y gyllideb. Ar 12 Gorffennaf, cynhaliodd y Pwyllgor ei ddadl flynyddol yn y Cyfarfod Llawn ar Flaenoriaethau Gwariant Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gyllideb arfaethedig, ac rwy'n ddiolchgar i bawb a gyfrannodd. Rwy'n ysgrifennu'n awr i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am y gwaith o graffu ar Gyllideb Ddrafft 2024-25.

Ymgynghori a'r amserlen

Mae'r Pwyllgor Cyllid wedi cyhoeddi ei ymgynghoriad cyn y gyllideb, ar ran pob Pwyllgor, sy'n cau ar 30 Tachwedd. Bydd yr ymatebion i'r ymgynghoriad ar gael ar ein gwefan.

Gan y bydd Llywodraeth y DU yn cyhoeddi datganiad yr hydref ar 22 Tachwedd, mae'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Cymru (y Gweinidog) wedi cadarnhau y bydd yn cyhoeddi'r Gyllideb amlinellol ddrafft a'r gyllideb fanwl ddrafft gyda'i gilydd ar 19 Rhagfyr. Bydd y Gweinidog yn ymddangos gerbron y Pwyllgor Cyllid y diwrnod wedyn, ar 20 Rhagfyr, ar gyfer sesiwn dystiolaeth gychwynnol.

Ffocws y Gyllideb

Mae'r gyllideb eleni yn debygol o ganolbwyntio ar effaith yr argyfwng costau byw, chwyddiant a



thryloywder penderfyniadau ariannol Llywodraeth Cymru. Yn ogystal, mae'r Pwyllgor Cyllid wedi nodi nifer o feysydd yr ydym am i'r gwaith craffu ganolbwyntio arnynt, sef:

- pa effaith y mae pwysau chwyddiant yn ei chael ar gyllidebau refeniw a chyfalaf a sut mae hyn wedi newid fforddiadwyedd cynlluniau blaenorol;
- sut y dylid targedu adnoddau i gefnogi adferiad economaidd a pha sectorau yn benodol y mae angen eu blaenoriaethu;
- i ba raddau y dylid blaenoriaethu lliniaru newid yn yr hinsawdd wrth gefnogi adferiad economaidd;
- sut mae dyraniadau cyllideb yn cefnogi'r dyheadau yng nghynllun Sero Net Cymru;
- polisiau Llywodraeth Cymru i leihau tlodi ac effaith yr argyfwng costau byw ar anghydraddoldeb rhwng y rhywiau;
- yr agwedd tuag at wariant ataliol, a sut y mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn y broses o ddyrannu adnoddau (caiff gwariant ataliol ei ddiffinio fel gwariant sy'n canolbwyntio ar atal problemau a lliniaru'r galw am wasanaethau yn y dyfodol, drwy ymyrryd yn gynnar);
- cynaliadwyedd gwasanaethau cyhoeddus, arloesi a thrawsnewid gwasanaethau
- sut y mae tystiolaeth yn llywio gwaith Llywodraeth Cymru o ran pennu blaenoriaethau a dyrannu'r gyllideb
- sut y dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio pwerau trethu a benthycu.
- cefnogaeth i fusnesau, twf economaidd ac amaethyddiaeth ar ôl i'r cyfnod pontio ar ôl gadael yr UE ddod i ben.

Yn ogystal â hyn, nodwyd y meysydd a ganlyn fel blaenoriaethau yn ystod y digwyddiadau i randdeiliaid a'r gwaith ymgysylltu a drefnwyd gan y Pwyllgor yn ystod tymor yr haf:

- yr angen i wasanaethau gydweithredu i fynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu'r GIG a'r sector gofal cymdeithasol;
- yr angen i roi digon o adnoddau i lywodraeth leol fedru ymdrin â phwysau cynyddol
- yr angen i roi mwy o gymorth i'r rhai sy'n astudio ac yn gweithio yn y sector addysg;
- yr angen i ganolbwyntio ar fesurau ataliol ac atebion dan arweiniad y gymuned i fynd i'r afael ag achosion sylfaenol tlodi ac anghydraddoldeb;
- yr angen i roi'r gorau i ariannu'r sector gwirfoddol drwy drefniadau ad-hoc

- yr angen i ganolbwyntio ar wireddu potensial ynni gwyrdd Cymru.

Gobeitho y bydd ein gwaith ymgysylltu, a'r ymgynghoriad cyhoeddus arfaethedig, yn ategu ac yn llywio gwaith y Pwyllgorau polisi, a byddwn yn eich annog i ddefnyddio rhai o'r meysydd a amlinellir uchod fel ffocws wrth i chi graffu ar y gyllideb.

Os oes gennych gwestiynau am unrhyw agwedd ar broses y gyllideb ddrafft, mae croeso i chi gysylltu â mi neu ag Owain Roberts, Clerc y Pwyllgor Cyllid, ar 0300 200 6388, seneddcyllid@senedd.cymru.

Yn gywir



Peredur Owen Griffiths
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.



Paul Davies MS
Chair of Economy, Trade, and Rural
Affairs Committee

SeneddEconomy@senedd.wales

Huw Irranca-Davies MS
Chair of Legislation, Justice and Constitution
Committee

SeneddLJC@assembly.wales

Ein cyf: VG-PO-0381-23

16 Tachwedd 2023

Annwyl Paul a Huw

Dyma eich hysbysu, yn unol â'r cytundeb cysylltiadau rhyngsefydliadol, fod cyfarfod y Grŵp Rhyngweinidogol ar Fasnach wedi'i drefnu ar gyfer Dydd Llun 20 Tachwedd 2023.

Bydd yr agenda yn cynnwys y trafodaethau sy'n mynd rhagddynt gydag India, y memorandwm cyd-ddealltwriaeth rhwng y DU ac UDA, 13eg Gynhadledd Gweinidogion y WTO (MC-13) a'r trafod rhwng Cymru a Llywodraeth y DU am negodiadau.

Anfonaf ragor o wybodaeth atoch ar ôl y cyfarfod.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink that reads 'Vaughan Gething'.

Vaughan Gething AS/MS
Gweinidog yr Economi
Minister for Economy

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

YPCCGB@llyw.cymru PSCGMET@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.



Ein cyf: VG-PO-0388-23

Paul Davies AS
Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach
a Materion Gwledig

SeneddEconomy@senedd.wales

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth,
Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

SeneddLJC@assembly.wales

17 Tachwedd 2023

Annwyl Paul, Huw

Yn dilyn fy llythyr dyddiedig 16 Tachwedd, ysgrifennaf atoch i'ch hysbysu bod y Grŵp Rhyng-Weinidogol ar gyfer Masnach (IMG) a drefnwyd ar gyfer dydd Llun 20 Tachwedd 2023 wedi'i ohirio.

Hysbyswyd fy swyddogion ddiwedd prynhawn dydd Iau 16 Tachwedd, oherwydd ad-drefnu llywodraethau'r DU ac ymrwymiadau dyddiadur presennol Gweinidog Masnach newydd Llywodraeth y DU, y byddai angen ail-drefnu'r cyfarfod. Byddaf yn ysgrifennu at Greg Hands, y Gweinidog Masnach, yn nodi fy syniadau ar y pynciau fyddai wedi cael eu trafod.

Byddaf yn ysgrifennu atoch i'ch hysbysu pryd y bwriedir cynnal yr IMG nesaf ar gyfer Masnach.

Yn gywir,

Vaughan Gething AS
Gweinidog yr Economi

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

YPCCGB@llyw.cymru PSCGMET@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 88
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Paul Davies AS
Cadeirydd
Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

SeneddEconomy@senedd.wales

17 Tachwedd 2023

Annwyl Paul,

Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Rhestrau Sefydliadau) (Dirymu) 2023

Ar 18 Hydref, ysgrifennais i ddweud fy mod wedi rhoi cydsyniad i Ysgrifennydd Gwladol yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig wneud Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Rhestrau Sefydliadau) (Dirymu) 2023.

Dywedwyd y byddai'r Rheoliadau'n cael eu gosod gerbron Senedd y DU ar 18 Hydref 2023 ond, erbyn hyn, mae'r amserlen honno'n aneglur. Dim ond ar 3 Tachwedd y cawsom wybod am hyn, ar ôl y dyddiad gosod a drefnwyd. Byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ichi am y mater hwn cyn gynted ag y bydd gennyf ragor o wybodaeth.

Yn gywir,

Lesley Griffiths AS/MS
Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd
Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.



Paul Davies AS
Cadeirydd
Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

SeneddEconomy@senedd.wales

18 Hydref 2023

Annwyl Gadeirydd,

Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Rhestrau Sefydliadau) (Dirymu) 2023

Hoffwn hysbysu'r Pwyllgor fy mod yn rhoi cydsyniad i'r Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig wneud Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Rhestrau Sefydliadau) (Dirymu) 2023.

Bydd y Rheoliadau yn cael eu gwneud o dan bwerau a wneir gan ddefnyddio pwerau yn Rheoliad a Ddargedwir (UE) 2017/625 – y Rheoliad Rheolaethau Swyddogol.

Pwrpas y Rheoliadau yw dirymu'r cyfyngiadau a osodwyd ar rai sefydliadau bwyd Brasil. Bydd hyn yn galluogi sefydliadau bwyd Brasil y cyfyngwyd arnynt yn flaenorol i gael eu hychwanegu at y rhestr o sefydliadau a gymeradwywyd i allforio i Brydain Fawr, ar ôl i restr wedi'i diweddarau o'r sefydliadau a gymeradwywyd gan awdurdodau cymwys Brasil gael ei chyflwyno.

Hoffwn sicrhau'r Pwyllgor hwn mai polisi Llywodraeth Cymru fel arfer yw deddfu dros Gymru ar faterion o fewn cymhwysedd datganoledig. Fodd bynnag, mewn rhai amgylchiadau, mae manteision i gydweithio â Llywodraeth y DU pan fo sail resymegol glir dros wneud hynny. Ar yr achlysur hwn, felly, rwy'n rhoi fy nghydsyniad i'r Rheoliadau hyn am resymau effeithlonrwydd a hwylustod, a chydgyssylltiad a chysondeb trawslywodraethol.

Bydd y Rheoliadau yn cael eu gosod gerbron Senedd y DU ar 18 Hydref 2023 gan ddefnyddio'r weithdrefn negyddol a byddant yn dod i rym ar 08 Tachwedd 2023.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 90
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwyf hefyd wedi ysgrifennu at Huw Irranca-Davies AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad.

Cofion,

A handwritten signature in black ink that reads "Lesley Griffiths". The signature is written in a cursive style with a large, sweeping 'L' and 'G'.

Lesley Griffiths AS/MS
Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd
Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd

Elin Jones AS
Drwy e-bost: Llywydd@senedd.wales

23 Tachwedd 2023

Annwyl Lywydd,

Cyflwynwyd y Bil Masnach (Partneriaeth Gynhwysfawr a Blaengar y Môr Tawel) ('y Bil') i Senedd y DU, Tŷ'r Arglwyddi, ar 8 Tachwedd 2023.

Mae'r Bil yn ymdrin â gweithredu Cytundeb Masnach Rydd CPTPP. Mae'r Bil yn cynnwys ystod amrywiol o feysydd polisi, ac felly mae'n rhaid ystyried goblygiadau posibl ar lunio polisiâu Cymru'n llawn. Ein dadansoddiad cychwynnol yw bod y Bil yn gwneud darpariaeth berthnasol at ddibenion Rheol Sefydlog 29 ac felly bydd yn ei gwneud yn ofynnol i osod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol. Rydym yn gweithio drwy'r manylion sydd eu hangen. Fodd bynnag, mae ystyried sut y gallai rhai darpariaethau yn y ddeddfwriaeth ddylanwadu ar weithgareddau llunio polisiâu Cymru yn y dyfodol mewn rhai meysydd yn golygu bod ein dadansoddiad yn fwy cymhleth na'r hyn a ragwelwyd yn wreiddiol. Er y bydd y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn cael ei osod cyn gynted â phosibl, bydd hyn y tu allan i'r dyddiad cau arferol o bythefnos o Reol Sefydlog 29. Y gobaith yw y bydd y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn cael ei osod mewn pryd i'r Pwyllgor Busnes ei ystyried yn ystod Rhagfyr.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, Rebecca Evans AS, y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, Mick Antoniw AS, y Gweinidog Materion Gwledig, Gogledd Cymru a'r Trefnydd, Lesley Griffiths AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Huw Irranca-Davies AS, a Chadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, Paul Davies, MS.

Yn gywir,

Vaughan Gething AS
Gweinidog yr Economi

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 92
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

15 Tachwedd 2023

Paul Davies
Cadeirydd
Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

Annwyl Mr Davies

Ymchwil a Datblygu

Mae CCAUC yn croesawu'r cyfle i ddarparu tystiolaeth ar gyfer Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig i oleuo'i ymchwiliad 'cipolwg' i sefyllfa bresennol y dirwedd ymchwil, datblygu ac arloesi yng Nghymru. Rydym wedi llunio ein hymateb o safbwynt ein rôl fel y corff cyhoeddus sy'n gweithredu rhwng Llywodraeth Cymru a darparwyr addysg uwch. Rydym yn rheoleiddio ac yn darparu cyllid ar gyfer addysgu ac ymchwil mewn addysg uwch, ac yn defnyddio ein dylanwad a'n harbenigedd i helpu i gyflawni blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer addysg uwch sydd hefyd yn dwyn manteision cymdeithasol ac economaidd ehangach. Rydym wedi darparu dolenni i ddogfennau eraill sy'n darparu gwybodaeth, cyd-destun a thystiolaeth ychwanegol.

Ar 1 Ebrill 2024, bydd CCAUC yn cael ei ddiddymu a bydd ei swyddogaethau'n trosglwyddo i'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (y Comisiwn). Mae ein hymateb isod yn cyfeirio at rôl y Comisiwn yn y dyfodol mewn perthynas ag ymchwil ac arloesi lle y bo'n briodol.

Pa heriau y mae busnesau Cymru yn eu hwynebu o ran ymwybyddiaeth o gyllid ymchwil a datblygu cyhoeddus a mynediad ato?

Mae dogfen CCAUC [Ymchwil ac Arloesi: Y Weledigaeth ar gyfer Cymru](#) (2022) yn disgrifio nodau byrdymor, cerrig milltir tymor canolig ac uchelgeisiau hirdymor ar gyfer cynnal sylfaen ymchwil ragorol sy'n cefnogi arloesi, sy'n hybu cynhyrchiant, sy'n fyd-eang o ran ei olygwedd, sy'n gydweithredol ac sydd ag ymdeimlad cryf o le. Un o bedwar conglaen y Weledigaeth yw 'cydweithredu' gan gynnwys 'cydweithredu sy'n cysylltu arbenigedd mewn prifysgolion â chwmnïau angor allweddol, busnesau bach a chanolig, y sector cyhoeddus a'r trydydd sector a gyda phartneriaid mewn sefydliadau addysg bellach; cydweithredu sy'n meithrin màs critigol yng Nghymru ac yn adeiladu partneriaethau newydd ledled y DU; cydweithredu ag ymchwilwyr a sefydliadau rhyngwladol'.

Mr Rob Humphreys
Cadeirydd | Chair

Dr David Blaney
Prif Weithredwr | Chief Executive



Er na all CCAUC na'r Comisiwn gyllido busnesau'n uniongyrchol i gyflawni ymchwil neu arloesi, rydym yn ystyried bod cydweithio rhwng busnesau a phrifysgolion yn hanfodol i gyflawni cymuned ffyniannus o her, newid a chyflawniad a fydd yn gwireddu uchelgeisiau economaidd, cymdeithasol a dinesig ledled Cymru, y DU a'r byd. Un o nodau allweddol ein dull cyllido felly, fel a ddisgrifir isod, yw cynorthwyo prifysgolion i allu meithrin perthnasoedd cryf ac effeithiol â byd busnes a diwydiant.

Mae ar fusnesau angen cymorth hefyd i ymgysylltu a thyfu trwy fentrau cydweithio o'r fath, a dylai datrysiadau o'r fath gydnabod y gwahaniaethau mewn economïau lleol. Mae hyn yn galw am ymgysylltu â rhanddeiliaid lleol allweddol i greu dulliau arloesi effeithiol ar y cyd, gan gynnwys prifysgolion, gan adeiladu ar gryfderau ac asedau lleol unigryw. Mae angen i'r dirwedd ar gyfer cyllido fod yn eglur ac yn gydlynol, a chael ei deall yn rhwydd gan y rhai sy'n ceisio mynediad ati. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i Fusnesau Bach a Chanolig (gan gynnwys microfusnesau), sy'n rhoi cyfrif am y mwyafrif o economi Cymru, nad oes ganddynt yr amser na'r capasiti o ran staff y mae eu hangen i ymwneud â phrosesau cyllido maith a chymhleth. Gall fod yn arbennig o anodd i microfusnesau ddod o hyd i'r cydfuddsoddiad angenrheidiol oherwydd eu maint. Mae buddsoddi mewn prifysgolion ac yn yr wybodaeth a'r arbenigedd y gall prifysgolion eu rhannu a'u cyfnewid â'r busnesau hyn yn cynnig mwy o gyfle iddynt fod yn llwyddiannus ac ehangu a chyfrannu at yr economi leol.

Pa wahaniaethau sydd rhwng cyllid ar gyfer prifysgolion a chyllid ar gyfer arloesi yn y diwydiant? A oes gwahaniaethau rhanbarthol yn y dyraniad cyllid?

Mae CCAUC yn cyllido arloesi mewn prifysgolion trwy [Gronfa Arloesi Ymchwil Cymru](#) (RWIF). Mae hon wedi'i bwriadu i gefnogi'r ystod eang o weithgareddau cyfnewid gwybodaeth sy'n cyfrannu at effaith economaidd a chymdeithasol, gan gynnwys rôl ehangach sefydliadau o ran cenhadaeth ddinesig. Mae'r cyllid yn darparu cymhelliad i brifysgolion weithio gyda busnesau, sefydliadau'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector, cyrff cymunedol a'r cyhoedd ehangach.

Er mwyn darparu sefydlogrwydd ar gyfer prifysgolion a'u galluogi i roi cynlluniau ar waith ar gyfer buddsoddiad strategol hirdymor, bydd ail gam cyllid Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru o 2023/24 yn:

- Seiliedig ar strategaethau pum mlynedd cymeradwy, gyda monitro ac adolygu blynyddol
- Cynnal yr un dull cyllido am o leiaf dair blynedd, ac o bosibl hyd at bum mlynedd yn amodol ar unrhyw benderfyniadau gan y Comisiwn
- Defnyddio mesurau i gyfyngu ar yr amrywiadau yn y cyllid y mae prifysgolion unigol yn ei gael o un flwyddyn i'r llall, gan ddal i wobrwyo perfformiad cryf yn nangosyddion y dull cyllido

Mae dyraniadau Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru'n cynnwys grant capasiti blynyddol o £250k i bob sefydliad, sy'n amcanu at gefnogi twf ac arfer da, galluogi mwy o gydweithio, a sicrhau sefydlogrwydd ar draws y sector.

Mae [dull cyllido Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru](#) yn seiliedig ar berfformiad mewn cyfres o fetrigau a gofnodir trwy'r Arolwg Rhyngweithiad Addysg Uwch-Busnes a Chymuned. Y rhain yw cyfanswm incwm, diwrnodau dysgwyr DPP, incwm o gwmnïau deilliedig, a nifer y busnesau a gychwynwyd gan raddedigion sy'n dal yn weithredol ar ôl tair blynedd. Mae'r dull hwn yr un fath fwy neu lai â'r un a ddefnyddir gan Research England

a Chyngor Cyllido'r Alban i ddyrannu eu cyllid craidd ar gyfer arloesi gan brifysgolion. Gan bod prifysgolion yn defnyddio'r cyllid craidd hwn i danategu a chryfhau eu capasiti i gynnig am grantiau cystadleuol ledled y DU, mae'n bwysig bod prifysgolion Cymru'n gallu gwneud hynny gan gael chwarae teg.

Mae CCAUC yn dyrannu £15m y flwyddyn trwy Gronfa Arloesi Ymchwil Cymru ar hyn o bryd. Mae ein Cyngor wedi cydnabod, mewn egwyddor, y dylid cynyddu hyn i £25m y flwyddyn os bydd cyllidebau'n caniatáu, i gyflawni mwy o gywerthedd â chyllid a ddyrennir i brifysgolion yng ngwledydd eraill y DU. Mae hyn yn cyd-fynd ag argymhelliad [Adolygiad Diamond](#), a gefnogwyd yn ddiweddarach gan [Adolygiad Reid](#).

A yw diddordebau ymchwil prifysgolion a diwydiant yn wahanol ac, os felly, pa gamau y gellir eu cymryd a chan bwy i sicrhau y darperir ar gyfer buddiannau'r ddau sector?

Mae gan brifysgolion a diwydiant rolau pwysig, cyflenwol fel rhan o'r ecosystem ymchwil ac arloesi ehangach, fel a nodwyd yn yr [adolygiad diweddar o dirwedd ymchwil, datblygu ac arloesi'r DU](#) dan arweiniad Syr Paul Nurse. Bydd dyletswyddau strategol ar y Comisiwn i 'gyfrannu at economi gynaliadwy ac arloesol' ac i 'hybu cydweithio a chydlynid mewn addysg drydyddol ac ymchwil'. Er mai penderfyniad i'r Comisiwn fydd sut y mae'n rhoi'r dyletswyddau hyn ar waith, bydd ystyried y blaenoriaethau strategol a bennir ar ei gyfer gan Weinidogion Cymru, bod â golwg holistaidd a meithrin perthnasoedd â rhanddeiliaid ar draws yr ecosystem yn bwysig.

Mae gan brifysgolion hanes cryf o drosi ymchwil yn effaith economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol. Mae Cymru'n un o'r gwledydd mwyaf effeithlon am drosi ei hincwm ymchwil yn ymchwil sy'n cael effaith fawr ar gyfer gwledydd o faint tebyg. Yn y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (REF) diwethaf yn 2021, perfformiodd Cymru'n gryf gyda 31% o'r ymchwil yn cael ei hystyried yn ymchwil a oedd gyda'r gorau yn y byd, a 50% arall yn cael ei hystyried yn ymchwil a oedd yn rhagorol yn fyd-eang. O ran effaith, roedd prifysgolion Cymru uwchlaw cyfartaledd y DU (87%) gydag 89% o'r ymchwil yn cael ei hystyried yn ymchwil a oedd yn cael effaith aruthrol neu sylweddol iawn ar gymdeithas.

Mae [dadansoddiad o'r 280 o astudiaethau achos o'r effaith gan brifysgolion Cymru](#) a gyflwynwyd i REF 2021 yn dangos y cyfraniad y mae ymchwil gan brifysgolion Cymru'n ei wneud i drawsnewid economaidd, gan arwain yn ei dro at greu cyfleoedd cyflogaeth. Roedd traean o'r astudiaethau achos yn nodi effaith ariannol, gyda chanlyniadau pendant gan gynnwys creu mwy na 2500 o swyddi ar draws y sectorau cyhoeddus a phreifat. Roedd 70% o'r astudiaethau achos yn nodi effaith yng Nghymru, gyda thros draean yn berthnasol i flaenoriaethau allweddol gan Lywodraeth Cymru, sef newid hinsawdd a sero net, Cymraeg 2050, plant a phobl ifanc, y dangosyddion llesiant cenedlaethol, a chynhyrchiant.

Sut gall prifysgolion a busnesau ryngweithio a chydweithio'n well â'i gilydd?

Dengys data diweddar fod prifysgolion Cymru'n llwyddo i ryngweithio'n fwyfwy â busnesau. Daw'r data canlynol o ffurflenni'r Arolwg Rhyngweithiad Addysg Uwch-Busnes a Chymuned (HEBCI) ar gyfer 2021/22 ac maent ymhlith y dangosyddion allweddol a ddefnyddir gan CCAUC i fesur cynnydd yn erbyn ein Gweledigaeth.

- £254m mewn incwm HEBCI ar y cyfan ar gyfer 2021/22, sy'n gynydd o 15.9% ers 2020/21 (o'i gymharu â chynnydd o 10.7% ledled y DU, a'r twf cryfaf ar draws pedair gwlad y DU)
- £58.7m mewn incwm adfywio a datblygu i SAUau Cymru, i fyny o £54.4m yn 2020/21 (cyfanswm y DU: £324m)
- 27 o fentrau cymdeithasol gweithredol, i fyny o 20 yn 2020/21 (cyfanswm y DU: 710, i fyny o 499 yn 2020/21)
- 102 o gwmnïau deilliedig sydd wedi para am o leiaf dair blynedd (cyfanswm y DU: 1,444) yn 2021/22 (2020/21: Cymru 95; cyfanswm y DU: 1,379)
- Incwm o ymchwil gydweithredol wedi cynyddu 25% i £115m, i fyny o £92m yn 2020/21 (cyfanswm y DU: £1.9bn; cyfanswm y DU yn 2020/21: 1.8bn). Mae'r gyfran hon yn 6.1% o gyfanswm y DU.
- Incwm o ymchwil ar gontractau (gyda BBChau ac eraill) £33m, i fyny o £30.2m yn 2020/21 (cyfanswm y DU: £1.6bn, cyfanswm y DU yn 2020/21: £1.4bn)
- Diwrnodau dysgwyr DPP a ddarparwyd – 314,423 (cyfanswm y DU: 3,906,709)

Roedd Cronfeydd Strwythurol Ewrop yn ffynhonnell cyllid bwysig ar gyfer gweithgareddau ymchwil ac arloesi ym mhrifysgolion Cymru. Fe gefnogodd y cyllid ystod o weithgareddau gan gynnwys darpariaeth gyfalaf (adeiladau ac offer); mynediad at gyfleusterau arbenigol ac arbenigedd ar gyfer BBChau; ymchwil gydweithredol; darparu hyfforddiant arbenigol; a phrofiad gwaith i raddedigion. Yn arbennig, fe alluogodd y cyllid brifysgolion i gydweithio'n fwy effeithiol gyda'r gymuned BBChau, sef asgwrn cefn economi Cymru.

Un enghraifft o effaith economaidd uniongyrchol a gyflawnwyd trwy'r cyllid hwn yw'r prosiect ASTUTE 2020, a oedd yn brosiect ar y cyd rhwng 4 o brifysgolion Cymru (Prifysgol Abertawe, Prifysgol Caerdydd, Prifysgol Aberystwyth a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant). Fe wnaeth y prosiect alluogi BBChau yn sector gweithgynhyrchu Cymru i gael mynediad at arbenigedd ac offer mewn prifysgolion partner i gefnogi datblygiad cynhyrchion a gwasanaethau newydd. Daeth y gwerthusiad terfynol o'r prosiect i'r casgliad bod gwaith ASTUTE wedi creu effaith economaidd o fwy na £200m yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd, ac wedi dwyn adenillion rhagorol o fwy nag £8 o effaith economaidd am bob £1 a fuddsoddwyd.

Mae gan brifysgolion rôl bwysig o ran y cyflenwad o dalent ar gyfer ymchwil ac arloesi trwy ddatblygu sgiliau entrepreneuriaidd yn eu myfyrwyr a chefnogi busnesau newydd a chwmnïau deilliedig gan staff. Defnyddiwyd Cronfeydd Strwythurol Ewrop i gadw a datblygu talent hefyd gyda thros £860m wedi'i fuddsoddi mewn prosiectau sgiliau a chyflogadwyedd. Mae'r buddsoddiad hwn wedi mynd yn tu hwnt i'r targed cychwynnol o fwy na 100,000 o brentisiaethau pob oed, o ansawdd da ac wedi creu mwy na 21,000 o hyfforddeiaethau gyda chyflogwyr ledled Cymru.

Gyda'r newidiadau i'r dirwedd gyllido yn dilyn ymadawiad y DU â'r UE, mae angen strwythurau, systemau a ffynonellau cyllid eraill i gynnal y momentwm a gyflawnwyd. Yn dilyn adroddiad yr Athro Graeme Reid ar gyfer Prifysgolion Cymru, [Nerth mewn Amrywiaeth](#), mae CCAUC wedi darparu cyllid i'w gwneud yn bosibl creu [Rhwydwaith Arloesi Cymru](#) (WIN). Trwy WIN, bydd prifysgolion yn ceisio adeiladu ar eu hamrywiaeth i greu partneriaethau gyda'i gilydd a chydag awdurdodau cyhoeddus, busnesau ac elusennau sy'n cynnig nerth cystadleuol ychwanegol ac yn hwyluso mwy o gyfnewid gwybodaeth.

Pa mor effeithiol yw Strategaeth Arloesi Llywodraeth Cymru yn debygol o fod o ran cefnogi ymchwil, datblygu ac arloesi yng Nghymru?

Mae'r Strategaeth Arloesi'n gydnabyddiaeth sydd i'w chroesawu gan Lywodraeth Cymru i bwysigrwydd arloesi ar gyfer mynd i'r afael â heriau llywodraeth, diwydiant, y byd academaidd a'r trydydd sector. Mae'n gyfle i gysoni blaenoriaethau'r DU a Chymru mewn ffordd sy'n darparu tirwedd polisi a chyllido gydlynol ar gyfer Cymru. Er mwyn cyflawni'r Strategaeth bydd yn rhaid wrth ddull cydgysylltiedig ar draws trefniadau cyllido, gan sicrhau bod buddsoddiadau mewn ymchwil, arloesi a sgiliau'n cyd-fynd â'i gilydd, ac ar draws gweithgareddau'r amryw randdeiliaid i gefnogi arloesi o fewn busnesau, prifysgolion a sectorau eraill Cymru mewn ffordd well.

Mae'r Strategaeth Arloesi hefyd yn cydnabod y rôl bwysig a fydd gan y Comisiwn o ran cefnogi ymchwil, arloesi a datblygiad sgiliau yng Nghymru. Bydd gan y Comisiwn gyfrifoldeb am oruchwylio a gwella'r modd y cydlynir y gwahanol elfennau cyfansoddol o'r system addysg drydyddol. Bydd hyn yn ei gwneud yn bosibl datblygu'r llwybrau dysgwyr a'r sgiliau y mae eu hangen i ddiwallu anghenion diwydiant, rhanbarthol a chenedlaethol. Rydym yn croesawu'r pwyslais a roddir ar ddatblygu diwylliant o arloesi yng Nghymru. Mae'r ymrwymiad hwn yn cyd-fynd â Strategaeth Pobl a Diwylliant Ymchwil a Datblygu Llywodraeth y DU sy'n amcanu at wneud y gorau o bobl a galluogi talent a syniadau i lifo'n rhydd rhwng y byd academaidd, byd busnes a sectorau eraill.

Mae'r Cynllun Cyflawni Arloesi'n cynnwys cam gweithredu i Lywodraeth Cymru weithio gyda CCAUC (a'r Comisiwn maes o law) a'r sector addysg drydyddol i gynyddu cyllid o ffynonellau allanol. Bydd yr arian yma'n cael ei ddyrannu ar sail gystadleuol yn bennaf, ac felly mae angen i'n prifysgolion allu cystadlu'n effeithiol er mwyn sicrhau adenillion sylweddol i Gymru. Mae'n glir i ni bod angen i'r rhagoriaeth y mae ei hangen i gyflawni llwyddiant mewn cynlluniau grant cystadleuol gael ei thanategu gan sylfaen ymchwil ac arloesi gref a chynaliadwy, a ategir gan lefelau cyson o gyllid craidd, y mae CCAUC yn ei ddyrannu trwy ei ffrydiau QR (Ymchwil o Ansawdd) a Chronfa Arloesi Ymchwil Cymru.

Cynnydd a wnaed mewn cysylltiad ag ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Bumed Senedd ar 'Ymchwil ac Arloesi yng Nghymru'.

Rydym yn cydnabod y bu newidiadau sylweddol i'r dirwedd ehangach ar gyfer ymchwil ac arloesi ers cyhoeddi'r adroddiad yn 2019, gan gynnwys creu Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU, a datblygu rôl Ymchwil ac Arloesi yn y DU, yn ogystal ag effaith barhaus pandemig Covid-19 a'r argyfwng ariannol. Mae hyn yn golygu, mewn rhai achosion, bod yr argymhellion bellach yn llai perthnasol.

Mae ymchwil ac arloesi yng Nghymru'n dal i gael eu tangyllido o'i gymharu ag yng ngwledydd eraill y DU. Nid yw codiadau yn y gyllideb a ddyrennir i Ymchwil ac Arloesi yn y DU, a thrwyddynt i Research England, wedi cael eu hadlewyrchu yng nghyllideb CCAUC. Nid yw'r uchelgeisiau ar gyfer cyllid ychwanegol a nodwyd yn Adolygiadau Diamond a Reid wedi cael eu gwireddu, ond medrodd CCAUC ailgyflwyno cyllid ar gyfer arloesi ac ymgysylltu, trwy Gronfa Arloesi Ymchwil Cymru, yn 2019/20. Dengys data diweddar fod prifysgolion Cymru'n cael symiau cynyddol o gyllid o ffynonellau allanol (cynnydd o 18% mewn incwm o gynghorau ymchwil rhwng 2020/21 a 2021/22), a

byddwn yn parhau i weithio gyda hwy a Rhwydwaith Arloesi Cymru i gynnal y momentwm hwn.

Fe wnaethom groesawu [cyhoeddi](#) pum blaenoriaeth ar gyfer ymchwil, datblygu ac arloesi gan Gyn-Gynghorydd Gwyddonol Cymru. Rydym yn parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau y cydlynir cyfraniadau at ddatblygu polisi ar lefel y DU. Mae Llywodraeth Cymru wedi gwahodd CCAUC i fod yn aelod allanol o'r Grŵp Ymgysylltu Strategol Ymchwil ac Arloesi (RISE), ac maent hwythau'n sylwedyddion ar ein Pwyllgor Ymchwil Cymru, trefniant y bydd CCAUC yn argymhell bod y Comisiwn yn parhau ag ef.

Wrth i'r Comisiwn ddod yn weithredol ac ysgwyddo'i swyddogaethau llawn, bydd hyn yn galluogi agweddau pellach ar argymhellion 2019 i gael eu rhoi ar waith. Ni fydd gan y Comisiwn gylch gwaith i gyllido sefydliadau y tu allan i'r sector addysg drydyddol, felly bydd angen cydgysylltu â Llywodraeth Cymru i sicrhau bod dulliau a strategaethau cyllido'n gyflenwol o ran cyfrannu at gyflawni blaenoriaethau Llywodraeth Cymru a galluogi cymuned ymchwil ac arloesi gref, ffyniannus o her, newid a chyflawniad a fydd yn gwireddu uchelgeisiau economaidd, cymdeithasol a dinesig ledled Cymru, y DU a'r byd.

Yn gywir



David Blaney

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Economy, Trade and Rural Affairs Committee inquiry into R&D

Universities Wales written evidence

November 2023

About Universities Wales

Universities Wales represents the interests of universities in Wales and is a National Council of Universities UK. Universities Wales' membership encompasses the Vice Chancellors of all the universities in Wales, and the Director of the Open University in Wales.

Our mission is to support a university education system which transforms lives through the work Welsh universities do with the people and places of Wales and the wider world.

Universities Wales welcomes the opportunity to respond to the Committee's consultation.

Summary

- Welsh universities deliver significant research and innovation activity across a diverse range of strengths, underpinned by core and competitive funding.
- The funding landscape is challenging, with core funding remaining static and under pressure, the requirements of match-funding, and with European Structural Funding coming to an end.
- Welsh universities will benefit from access to Horizon Europe and are working hard to leverage combined strengths to secure greater grant capture from competitive sources.
- Universities serve as regional drivers of innovation through partnerships and collaborative activity with businesses, in catapults, clusters and via Knowledge Transfer Partnerships.
- In the most recent Research Excellence Framework exercise (2021), Wales had a UK-led the UK for proportion of research whose impact is considered internationally excellent or world-leading. Analysis of the REF case studies found that Welsh universities benefitted 25 different groups of people and organisations in Wales

including children and young people, policy makers, the elderly, women and people with disabilities.

1. The current position of the research, development and innovation landscape in Wales and the effectiveness of:

1.1. Public funding: including funding levels; barriers to access; regional differences across the UK and Wales

